# Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig

# Datganiad Ymddiriedolaeth Ffi'r Drwydded Deledu ar gyfer y Flwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2023

HC 1688

# Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig

# Datganiad Ymddiriedolaeth Ffi'r Drwydded Deledu ar gyfer y Flwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2023

Cyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin yn unol ag adran 2 Deddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 11 Gorffennaf 2023.

HC 1688

© Hawlfraint y Goron 2023

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio ble nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch inationalarchives.gov.uk/doc/open-government- licence/version/3.

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ar y wefan Trwyddedau Teledu yn http://www.tvlicensing.co.uk/about/bbc-trust-statement-AB21

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn Licence Fee Unit, Room 2045 2nd Floor, Old Broadcasting House, 1 Portland Place, London W1A 1AA.

ISBN 978-1-5286-4124-1

E02915213

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o ffibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys


ADRODDIAD PERFFORMIAD 2

Rhagair gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol 2

Sylwadau Rheolwyr 3

Casglu Ffi'r Drwydded 3

Yr Amgylchedd Casglu 4

Dadansoddi Perfformiad 5

Maint Gwerthiannau 6

Osgoi Ffi'r Drwydded 6

Adolygiad o Wahaniaethau ar sail Rhywedd 7

ADRODDIAD ATEBOLRWYDD 9

Sail Paratoi Datganiad yr Ymddiriedolaeth 9

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â Datganiad yr Ymddiriedolaeth 9

Archwilwyr 10

Datganiad Llywodraethu 10

Asesiad Risg 12

ADRODDIAD ARCHWILIO'R RHEOLWR AC ARCHWILYDD CYFFREDINOL I DŶ'R CYFFREDIN 14

DATGANIADAU ARIANNOL 19

Datganiad o Refeniw a Gwariant ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Mawrth 2023 19

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2023 20

Datganiad Llifoedd Arian ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Mawrth 2023 21

Nodiadau i Ddatganiad yr Ymddiriedolaeth 22

Atodiad 1 – Cysoni â Phrif Adroddiad Blynyddol y BBC ar Incwm Ffi'r Drwydded 26

ADRODDIAD Y RHEOLWR A'R ARCHWILYDD CYFFREDINOL I DŶ'R CYFFREDIN 27

CYFARWYDDYD CYFRIFON A RODDWYD GAN DRYSORLYS EF 37

# Adroddiad Perfformiad

## Rhagair gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol

Cyflwynir  Datganiad Ymddiriedolaeth Ffi'r Drwydded bob blwyddyn i'r Senedd er mwyn rhoi darlun llawn o'r sefyllfa sy'n ymwneud â chasglu ffi'r drwydded, sef y ffynhonnell incwm unigol fwyaf ar gyfer y BBC o hyd.  Ar gyfartaledd, mae 9 o bob 10 oedolyn yn y DU yn defnyddio'r BBC bob wythnos, ac mae pob unigolyn yn treulio 6 awr a 9 munud yn gwylio BBC TV/iPlayer. Rydym yn ddiolchgar bod cynulleidfaoedd yn dal i werthfawrogi'r BBC ac yn parhau i ymrwymo i dalu ffi'r drwydded, gyda 24.4m o drwyddedau mewn grym ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae adroddiad eleni yn dangos bod 2022/23 wedi bod yn heriol ond, er gwaethaf hyn, mae ein timau wedi perfformio'n dda yn wyneb newidiadau yn amodau'r farchnad.  Er bod pris ffi'r drwydded yn cael ei rewi, mae cwsmeriaid ledled y DU wedi gweld cynnydd mewn costau byw. Hefyd, er bod y rhan fwyaf o amser gwylio'r DU yn dal i gael ei dreulio gyda theledu sy'n cael ei ddarlledu, mae'r farchnad yn dal i weld gostyngiad wrth i gyfran yr amser sy'n cael ei dreulio gyda fideo ar-alw a rhannu fideos barhau i gynyddu. Mae hyn, ynghyd â thwf aelwydydd sy'n arafu, yn lleihau ein marchnad y gellir mynd i'r afael â hi. Er gwaethaf hyn, mae TV Licensing wedi cyflawni perfformiad cryf gyda gostyngiad mewn refeniw o lai na 2%.

Mae'r heriau wedi cael eu hwynebu drwy wella lefel gwasanaeth cwsmeriaid sydd eisoes yn eithriadol; dangos perthnasedd a gwerth y drwydded deledu i aelwydydd; a sicrhau effeithiolrwydd gweithredol. Ar ben hynny, roedd TV Licensing yn parhau i weithio'n galed i sicrhau bod cwsmeriaid sy'n wynebu anawsterau ariannol yn cael y gefnogaeth a'r arweiniad sydd eu hangen arnynt i ddal eu trwydded.

Y llynedd, cynhaliodd y BBC adolygiad fforensig hefyd i ddeall pam fod mwy o fenywod na dynion yn cael eu herlyn am beidio â thalu ffi'r drwydded. Daeth yr adolygiad i'r casgliad (yn unol ag adolygiadau blaenorol) nad oes tystiolaeth bod TVL yn gwahaniaethu'n fwriadol yn erbyn unrhyw grŵp a bod y gwahaniaeth yn cael ei achosi'n bennaf gan ffactorau cymdeithasol y tu hwnt i reolaeth y BBC. Er gwaethaf hyn, buom yn gweithio gyda rhanddeiliaid i lunio a chyflwyno cynllun gweithredu 10 pwynt o ganlyniad i'n canfyddiadau.

Mae'r gyfradd osgoi dybiedig ar gyfer 2022/23 yn 10.31% o'i chymharu â'r gyfradd wedi'i diweddaru o 9.38% yn y flwyddyn flaenorol. Mae'r cynnydd hwn yn debygol o gynrychioli parhad o lawer o ffactorau a welwyd yn flaenorol gan y BBC sy'n cyfrannu at gynnydd yn y gyfradd osgoi, fel cynnydd yn nifer y cartrefi sydd â lefelau is o ddefnyddio cynnwys y BBC a/neu gynnwys trwyddedadwy, fel rhan o newid tymor hir mewn arferion gwylio.

Mae'r dull casglu presennol yn dal i fod yn deg, yn effeithiol ac yn werth da am arian. Mae ein gallu i gasglu'r ffi yn rhywbeth nad ydym byth yn ei gymryd yn ganiataol. Byddwn yn parhau i ddarparu gwerth i'r rheini sy'n talu ffi'r drwydded ac yn sicrhau eu bod wrth galon popeth a wnawn.



Tim Davie
Cyfarwyddwr
Cyffredinol, BBC 27
Mehefin 2023

## Sylwadau Rheolwyr

Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol fel Swyddog Cyfrifyddu yn cyflwyno Datganiad Ymddiriedolaeth Ffi Trwydded Deledu'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (Datganiad yr Ymddiriedolaeth) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

Mae Datganiad yr Ymddiriedolaeth yn dangos y refeniw derbyniadwy gan dalwyr Ffi'r Drwydded sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol am y flwyddyn. Mae'n rhaid i'r BBC gynhyrchu Datganiad yr Ymddiriedolaeth yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a roddwyd gan Drysorlys EF ac yn unol ag Adran 2 Deddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921.

Mae cwmpas Datganiad yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys unrhyw wariant a dynnir o'r refeniw a gasglwyd cyn cael ei drosglwyddo i'r Gronfa Gyfunol. Mae'r unig wariant a ddangosir yn Natganiad yr Ymddiriedolaeth hwn yn ymwneud â cholledion credyd. Mae costau casglu Ffioedd Trwyddedau yn cael eu hariannu drwy'r grant a delir i'r BBC gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS). Mae'r costau hyn y tu allan i gwmpas cyfrifon Datganiad yr Ymddiriedolaeth ac maent wedi'u cynnwys yng nghyfrifon Grŵp y BBC.

## Casglu Ffi'r Drwydded

Mae angen trwydded deledu i wylio neu recordio rhaglenni teledu'n fyw ar unrhyw sianel, gwasanaeth teledu y telir amdano neu sianel dramor (drwy ffrydio lloeren neu ar-lein), neu i wylio neu ffrydio rhaglenni teledu'n fyw ar wasanaeth teledu ar-lein. Mae angen trwydded hefyd i wylio cynnwys byw ac ar-alw y BBC a chynnwys byw S4C ar iPlayer. Mae'r BBC yn gyfrifol am gyhoeddi trwyddedau teledu, casglu refeniw ffi'r drwydded a gorfodi'r system drwyddedu. Mae unrhyw un sy'n 75 oed neu'n hŷn ac sy'n derbyn Credyd Pensiwn yn gymwys i gael trwydded deledu am ddim y telir amdani gan y BBC1[1].

Mae'r prosesau ar gyfer casglu refeniw Ffi'r Drwydded yn cael eu rheoli gan Uned Ffi'r Drwydded y BBC (yr Uned) sydd â nifer o drefniadau contract sy'n ymwneud â gwasanaethau i gwsmeriaid, casglu, gweinyddu a gorfodi Ffi'r Drwydded, cyfathrebu â chwsmeriaid, rheoli sianeli talu a rhwydweithiau adwerthu. Mae 'TV Licensing' (TVL) yn un o nodau masnach y BBC ac mae'n cael ei ddefnyddio o dan drwydded gan gwmnïau sydd wedi'u contractio gan y BBC. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith gweinyddol wedi'i gontractio i Capita Business Services Ltd, gyda Target Group yn gweinyddu'r Cynllun Talu Syml i'r rhai sy'n cael yr anhawster mwyaf i dalu am drwydded. Mae gwasanaethau cyfathrebu a chyflawni cwsmeriaid yn cael eu contractio i RAPP Ltd. Darperir gwasanaethau dros y cownter gan PayPoint plc yn y DU, a chan Swyddfeydd Post Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel. Mae'r BBC yn awdurdod cyhoeddus mewn perthynas â'i swyddogaethau trwyddedu teledu ac mae'n cadw'r cyfrifoldeb cyffredinol.

Mae TVL yn casglu'r incwm sy'n ddyledus sy'n cael ei dalu wedyn i Gronfa Gyfunol y Trysorlys, gyda swm cyfatebol yn cael ei dalu'n ôl i'r BBC mewn incwm grant gan y DCMS.

Mae gan y BBC drefniadau llywodraethu cynhwysfawr gyda'i gyflenwyr i sicrhau bod y prosesau ar gyfer casglu refeniw Ffi'r Drwydded yn gyson â rheoliadau a pholisïau ac yn cynnig yr opsiynau gorau i gwsmeriaid ar gyfer talu Ffi'r Drwydded. Nod y BBC yw cynnig amrywiaeth eang o gynlluniau a sianeli talu i alluogi cwsmeriaid i dalu'n gyflym ac yn syml.

1 Mae deiliaid trwydded sy'n 75 oed a hŷn ac sy'n byw mewn cynllun Llety ar gyfer Gofal Preswyl (ARC) hefyd yn gymwys i gael trwydded am ddim. Ar gyfer Dibynyddion y Goron, mae trefniadau cyfatebol ar waith.

# Yr Amgylchedd Casglu

Mae nifer o ffactorau'n effeithio ar refeniw Ffi'r Drwydded, gan gynnwys y newid yng ngwerth ffi'r drwydded, cyfradd twf aelwydydd, y gyfradd osgoi, newidiadau yn y defnydd o gyfryngau gan y gynulleidfa (newidiadau yng nghyfran y cyfryngau sy'n gorfod cael trwydded) ac incwm aelwydydd.

Roedd 2022/23 yn flwyddyn heriol i'r gwaith o gasglu ffi'r drwydded. Mae'r gostyngiadau yn y defnydd o gyfryngau a ddarlledir gan gynulleidfaoedd ynghyd â thwf aelwydydd sy'n arafu yn lleihau'r farchnad y gellir mynd i'r afael â hi. Ar ben hynny, mae heriau costau byw yn rhoi pwysau ar gyllidebau aelwydydd. Rydym wedi ymateb i hyn drwy ddatblygu'r cynnig gwerth mewn cyfathrebiadau TVL, cynyddu'r gefnogaeth i gwsmeriaid sy'n ei chael hi'n anodd talu a mabwysiadu dulliau newydd o leihau faint sy'n osgoi talu.

## Newid yng ngwerth ffi'r drwydded

Cafodd gwerth y drwydded deledu ei rewi ac roedd yn aros yn £159 ar gyfer 2022/23.

## Twf aelwydydd

Rydym wedi amcangyfrif bod twf aelwydydd ar gyfer 2022/23 yn 0.18%, mae hyn yn seiliedig ar ddatganiadau cyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol a gyhoeddwyd yn 2022, ac amcanestyniadau gan AMA Research, sefydliad ymchwil blaenllaw yn y diwydiant adeiladu.

## Cyfradd Osgoi

Mae model osgoi'r BBC yn cyfrifo lefel yr osgoi trwyddedau sy'n bodoli, nifer y safleoedd a chyfran y safleoedd hynny y dylid eu trwyddedu. Tarfwyd ar yr amcangyfrif o'r gyfradd osgoi yn ystod y blynyddoedd blaenorol oherwydd Covid-19, ond ar gyfer 2022/23 nid oedd unrhyw effaith ar gasglu data ac mae'r gyfradd osgoi wedi cael ei hamcangyfrif – mae rhagor o wybodaeth am sut mae hyn yn cael ei wneud ar gael isod.

## Defnydd o'r cyfryngau

Mae cynulleidfaoedd yn parhau i ddefnyddio dyfeisiau amrywiol yn ogystal â theledu ar gyfer eu profiadau gwylio. Ar gyfer y rhan fwyaf o gartrefi, mae'r dyfeisiau hyn yn cael eu defnyddio i ategu'r set deledu draddodiadol ond mae rhai aelwydydd lle mae'r set deledu'n cael ei disodli ar gyfer gwylio ar ddyfeisiau eraill yn unig. Mae'r holl ddyfeisiau gwylio yn cael eu cofnodi gan y rheoliadau ac mae angen trwydded ar gyfer gwylio teledu llinol neu ar gyfer gwylio neu lawrlwytho rhaglenni teledu'r BBC ar iPlayer.

Mae pwysau ar wylio teledu traddodiadol o ganlyniad i darfu digidol a symud i wylio ar-alw. Er bod gwylio ar-alw yn cynyddu, gwylio teledu llinol yw'r brif ffordd y mae'r rhan fwyaf o gynulleidfaoedd yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser yn gwylio. Mae cartrefi IPTV yn unig (lle mae'r cynnwys teledu'n cael ei dderbyn drwy gysylltiad rhyngrwyd yn hytrach na llwyfan darlledu traddodiadol) yn cynyddu ac yn gwylio llai o deledu byw/llinol.

Mae'r Bwrdd Ymchwil Cynulleidfaoedd Darlledwyr (BARB) yn darparu data ar gartrefi teledu ac aelwydydd sy'n defnyddio dyfeisiau heb fod yn deledu i wylio'r teledu. Mae'r data hwn yn cael ei gyhoeddi gan BARB bob chwarter ar sail ei Arolwg o Sefydliad Aelwydydd. Yna, mae addasiadau'n cael eu gwneud i gyfradd gyffredinol BARB i nodi'r aelwydydd hynny sydd angen trwydded ac i greu'r gyfradd treiddiad teledu (TVP).

Amcangyfrifir bod y Gyfradd Treiddiad Teledu (TVP) ar gyfartaledd yn seiliedig ar ddata aelwydydd teledu gan BARB, yn 91.54% ar gyfer 2022/23. Mae hyn yn ostyngiad o 0.94% o'i gymharu â'r gyfradd flynyddol gyfartalog o 92.48% a amcangyfrifwyd ar gyfer 2021/22.

## Incwm aelwydydd

Ar sail y data diweddaraf a gyhoeddwyd[2], £32,300 oedd incwm gwario canolrifol aelwydydd yn y DU yn y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben (FYE) 2022 (lle mae incwm gwario'n cael ei ddiffinio gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fel "faint o arian sydd gan aelwydydd ar gael i'w wario a'i gynilo ar ôl

cyfrif am drethi uniongyrchol, fel Treth Incwm, Yswiriant Gwladol a'r Dreth Gyngor"). Mae hyn yn ostyngiad o 0.6% o'r flwyddyn flaenorol ac mae'n groes i'r cynnydd cyfartalog o 1.7% y flwyddyn yn y 10 mlynedd blaenorol. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn awgrymu bod pandemig y coronafeirws (COVID-19) a'r ystod o fesurau cymorth ariannol a gyflwynwyd wedi effeithio ar yr amcangyfrifon o incwm ar gyfer 2021 a 2022.

Fel y rhagwelwyd, mae incwm gwario rhai aelwydydd wedi dod dan bwysau cynyddol o ganlyniad i chwyddiant ac mae incwm gwario canolrifol y pumed tlotaf o'r boblogaeth wedi gostwng 3.8% i £14,500 yn FYE 2022 yn wyneb cynnydd mewn prisiau ynni a chwyddiant arall. Rydym yn disgwyl i'r pwysau hwn barhau yn y blynyddoedd dilynol.

## Dadansoddi Perfformiad

Mae refeniw gros yn Natganiad yr Ymddiriedolaeth wedi gostwng i £3,881m (2022 £3,939m). Refeniw gros yw gwerth y Trwyddedau sy'n dod i rym yn ystod y cyfnod. Roedd yr ad-daliadau, y dirymiadau a'r colledion credyd yr un fath, sef £155m (2022 £155m).

Mae refeniw net ar gyfer y Gronfa Gyfunol (sy'n cynnwys y refeniw gros a'r premiymau ar ddebyd uniongyrchol chwarterol, llai ad-daliadau, dirymiadau a cholledion credyd), wedi gostwng i £3,741m (2022) £3,800m). Mae hyn 1.6% yn is na'r flwyddyn flaenorol.

Mae mesurau perfformiad yn canolbwyntio ar brofiad cwsmeriaid, enw da a'r gallu i yrru refeniw drwy reoli a pharhau i wella cyfathrebu â chwsmeriaid TV Licensing. Mae'r rhain yn cefnogi'r amcan allweddol o gynyddu refeniw ffi'r drwydded yn y tymor hir mewn ffordd sy'n cynnal cefnogaeth y cyhoedd i ffi'r drwydded. Mae gwasanaethau TVL wedi bod yn gadarn yn ystod y flwyddyn gyda dangosyddion perfformiad allweddol gwasanaeth cwsmeriaid yn well na'r targed, a chwynion ar y lefel isaf ers deng mlynedd.

Mae'r mesurau perfformiad hyn wedi'u gwreiddio yn nhrefniadau contract y cwmnïau sy'n cael eu contractio gan y BBC. Mae'r prosesau llywodraethu sy'n ymwneud â gweithredu'r contractau ac effeithiolrwydd rheoli gwaith o ddydd i ddydd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae perthynas waith gref yn bodoli rhwng yr holl gwmnïau hyn a'r BBC.

Er bod yr amgylchedd ar gyfer casglu yn heriol, mae perfformiad gweithredol TVL wedi bod yn effeithiol. Mae uchafbwyntiau 2022/23 yn cynnwys:


- Gwella profiad cwsmeriaid gyda mwy o hunanwasanaeth ar gael drwy'r wefan
- Mae 77% yn talu drwy ddebyd uniongyrchol
- Mae 64% o gwsmeriaid debyd uniongyrchol wedi dewis e-drwyddedu (gan hepgor papur, a chost)
- Gostyngiad mewn cwynion (0.04% o'r Trwyddedau sydd mewn grym)
- Cyflwyno tîm sydd wedi'i hyfforddi'n arbennig, sy'n ymroddedig i helpu pobl i aros dan drwydded a chyfeirio at wasanaethau cynghori ar ddyledion a chredyd pensiwn lle bo hynny'n berthnasol

2 ONS Incwm aelwydydd cyfartalog, y DU: blwyddyn ariannol yn dod i ben yn 2022

## Maint Gwerthiannau

Mae Tabl 1 yn dangos y gwerthiannau dros y pum mlynedd diwethaf heb gynnwys trwyddedau llety ar gyfer gofal preswyl (ARC)[3]. Yn 2022/23 roedd nifer y trwyddedau a werthwyd yn 24,256,000. Roedd gwerthiant trwyddedau y talwyd amdanynt yn 23,504,000, gostyngiad o 420,000. Roedd trwyddedau am ddim o dan y polisi newydd ar gyfer pobl dros 75 oed yn 759,000, gostyngiad o 6,000. Mae nifer y Trwyddedau mewn Grym ar ddiwedd pob blwyddyn yn wahanol i werthiannau trwydded sydd wedi'u cynnwys yma, ac maent yn cael eu hadrodd yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Grŵp y BBC.

**Tabl 1 – Maint gwerthiannau ('000oedd o drwyddedau gan gynnwys trwyddedau am ddim dros 75 )** [4]




3 Mae trwyddedau ARC yn ychwanegu 214,000 o drwyddedau ychwanegol am ddim dros 75 oed, a 179,000 o drwyddedau consesiynol a werthir.

4 Mae gwerthiannau Ffi'r Drwydded yn nhabl 1 yn cynnwys y nifer o drwyddedau am ddim dros 75. 2023 – 759,000; 2022 - 765,000; 2021 - 1,481,000; 2020 – 4,504,000; 2019 – 4,465,000

## Osgoi Ffi'r Drwydded

Mae'r nifer sy'n osgoi talu Ffi'r Drwydded yn cael ei fesur fel y gwahaniaeth rhwng y trwyddedau sydd mewn grym a nifer y lleoedd trwyddedadwy. Nodir y trwyddedau sydd mewn grym o gronfa ddata TV Licensing ac amcangyfrifir nifer y lleoedd trwyddedadwy o ffynonellau ystadegol ac ymchwil bwrpasol. Mae llefydd y mae angen eu trwyddedu yn cynnwys aelwydydd a llefydd annomestig eraill y mae angen Trwydded Deledu ar eu cyfer.

Mae amcangyfrifon yn cael eu gwneud ar gyfer nifer y llefydd annomestig fel busnesau, gwestai a neuaddau preswyl i fyfyrwyr. Mae amcangyfrifon priodol o dreiddiad teledu – i ganfod pa le sydd angen trwydded - yn cael eu cymhwyso i bob un i gyfrifo lleoedd trwyddedadwy. Mae cyfanswm yr holl leoedd trwyddedadwy yn cael ei gymharu â nifer y trwyddedau sydd mewn grym i gyfrifo canran yr osgoi.

Un mewnbwn allweddol ar gyfer cyfrifo canran yr osgoi yw'r gyfradd TVP sy'n rhoi cymhareb yr aelwydydd sydd angen trwydded. Fel sy'n cael ei ddisgrifio yn yr adran Defnydd o'r Cyfryngau uchod, mae TVP aelwydydd yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio tystiolaeth arolwg o Arolwg chwarterol BARB o Sefydliad Cartrefi. Mae hwn yn arolwg cadarn a gynhelir yn y cartref ac ar-lein o tua 13,000 o gartrefi bob chwarter sy'n gofyn i ymatebwyr am eu perchnogaeth o deledu, perchnogaeth dyfeisiau gwylio a'r defnydd o ddyfeisiau. Mae canlyniadau'r arolwg hwn yn galluogi'r BBC i gyfrifo amcangyfrif cadarn o'r gyfradd TVP bob chwarter. Mae'r gyfradd TVP sy'n cael ei adrodd gan BARB yn cael ei haddasu gan y BBC mewn sawl ffordd, gan gynnwys rhoi cyfrif am aelwydydd sy'n gwylio cynnwys trwyddedadwy ar ddyfeisiau nad ydynt yn rhai teledu, hepgor aelwydydd sy'n defnyddio teledu i wylio cynnwys nad yw'n drwyddedadwy yn unig, yn ogystal â rhoi cyfrif am y lefelau gwahanol o ddefnyddio cynnwys trwyddedadwy o gartrefi IPTV. Mae'r diweddariadau a ddarperir bob chwarter ar ffurf golwg chwarterol a golwg flynyddol sy'n adlewyrchu cyfnod treigl o 12 mis.

Caiff y gyfradd osgoi ei chyfrifo fel amcangyfrif dros y cyfnod ariannol cyfan (cyfradd osgoi gyfartalog dros 12 mis y flwyddyn honno). Mae hyn yn rhoi'r darlun gorau o lefel yr osgoi drwy gydol y cyfnod oherwydd ei fod yn llai agored i amrywiadau yn y data. Gan fod y data mewnbwn yn cynnwys lefel o amcangyfrif, mae'r gyfradd osgoi yn arwyddocaol ar leoedd degol sero ac amcangyfrifir bod yr ystod gwall yn +/- 0.5%pt er bod y cyfrifiad yn cael ei wneud i ddau le degol i ddarparu gwybodaeth am dueddiadau.

Ers cyhoeddi'r gyfradd osgoi ddiwethaf, mae'r BBC wedi ailddatgan nifer y Trwyddedau mewn Grym yn 2021/22. Wrth gyfrifo'r niferoedd sy'n osgoi talu ar gyfer 2022/23, daethom yn ymwybodol bod yr amcangyfrifon o drwyddedau consesiynol Llety ar gyfer Gofal Preswyl (ARC) a thrwyddedau ARC a ariennir gan y BBC wedi cael eu hystumio gan effeithiau covid yn y blynyddoedd blaenorol. Roedd hyn yn effeithio ar Drwyddedau mewn Grym, sy'n elfen allweddol wrth amcangyfrif y nifer sy'n osgoi talu. Ar ôl cywiro hyn, amcangyfrifir bod y gyfradd osgoi ar gyfer 2021/22 yn 9.38% erbyn hyn[5]

Ar gyfer 2022/23, amcangyfrifir mai'r gyfradd osgoi yw 10.31%. Mae hyn yn gynnydd o 0.93% o'i gymharu â'r amcangyfrif diweddaraf o osgoi talu yn 2021/22. Mae'r cynnydd hwn yn debygol o gynrychioli parhad o lawer o ffactorau a welwyd yn flaenorol gan y BBC sy'n cyfrannu at gynnydd yn y gyfradd osgoi, fel cynnydd yn nifer y cartrefi sydd â lefelau is o ddefnyddio cynnwys y BBC a/neu gynnwys trwyddedadwy, fel rhan o newid tymor hir mewn arferion gwylio.

Er bod y rhan fwyaf o amser gwylio'r DU yn dal i gael ei dreulio gyda theledu sy'n cael ei ddarlledu, mae cyfran yr amser sy'n cael ei dreulio gyda fideo ar-alw a rhannu fideos yn parhau i gynyddu. Mae hyn yn arbennig o amlwg ymysg cynulleidfaoedd iau, lle mae tua 50% o'r amser gwylio yn ymwneud â rhannu fideos. Efallai bod aelwydydd lle mae diffyg dealltwriaeth o ehangder ac amrywiaeth y gwasanaethau a ddarperir gan y BBC, a bod ffi'r drwydded yn hwyluso mynediad at nid yn unig gynnwys y BBC, ond yr holl gynnwys teledu, yn cyfrannu at rai segmentau o'r gynulleidfa yn rhoi llai o werth ar ffi'r drwydded nag y byddent yn ei wneud fel arall. Mae'r BBC yn ceisio mynd i'r afael â'r her hon drwy ei strategaeth gyfathrebu â chwsmeriaid i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn adnabod y cysylltiad uniongyrchol rhwng y cynnwys maent yn ei fwynhau a ffi'r drwydded sy'n ariannu.

Er gwaethaf y gostyngiad yn y farchnad y gellir mynd i'r afael â hi, mae arferion gwylio pob oedolyn yn y DU yn dangos bod cynulleidfaoedd yn dal i gael gwerth gan y BBC ac yn treulio llawer iawn o amser yn defnyddio ei wasanaethau a'i gynnwys. Ar gyfartaledd, mae 9 o bob 10 oedolyn yn y DU yn defnyddio'r BBC bob wythnos, ac mae pob unigolyn yn treulio 6 awr a 9 munud yn gwylio BBC TV/iPlayer – mae hyn yn fwy na Netflix, Disney ac Amazon Prime Video gyda'i gilydd.

Yn dilyn amgylchedd cyflogaeth heriol yn deillio o'r Pandemig Covid-19, mae Capita wedi gweld gostyngiad yn nifer y Swyddogion Maes a gyflogir, sydd yn ei dro yn ffactor cyfyngol ar allu TVL i gasglu ffi'r drwydded. Mae TVL a Capita yn gweithio'n agos i gynyddu recriwtio Swyddogion Maes yn 23/24 a thu hwnt.

Mae 2022/23 wedi gweld amgylchiadau eithriadol sy'n effeithio ar amcangyfrif y nifer sy'n osgoi talu. Mae'r cyfrifiad osgoi yn defnyddio amcangyfrifon TVP a fydd yn uwch mewn chwarteri sy'n dyst i

[5] 8.93% Cyfradd osgoi a gofnodwyd yn Natganiad yr Ymddiriedolaeth 21/22

ddigwyddiadau teledu eithriadol sy’n denu cynulleidfaoedd mawr ar draws y wlad. Dim ond dros gyfnodau byr o ddyddiau y gall y digwyddiadau hyn sbarduno mwy o wylio, ac felly nid ydynt yn adlewyrchu gofynion y drwydded dros chwarter cyfan. Mae’r BBC yn parhau i adolygu heriau mesur o’r fath.

## Adolygiad o Wahaniaethau ar sail Rhywedd

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd y BBC ein hail Adolygiad o Wahaniaethau ar sail Rhywedd i geisio deall yn fanwl pam mae menywod yn fwy tebygol na dynion o gael eu herlyn am osgoi talu ffi’r drwydded. Mae menywod yn fwy tebygol o brofi caledi ariannol na dynion ac mae hyn, ynghyd ag amrywiaeth o wahaniaethau cymdeithasol ac ymddygiadol, yn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd menywod yn dod yn rhan o’r broses erlyn. Cafodd yr astudiaeth fanwl ei goruchwylio gan gynghorydd annibynnol ac roedd yn cynnwys tystiolaeth gan amrywiaeth o randdeiliaid arbenigol, dadansoddiad o ddata TVL ac ymchwil ar anghydraddoldeb cymdeithasol.

Mae’r pum mlynedd diwethaf wedi gweld gostyngiad o 66% mewn erlyniadau TV Licensing yng Nghymru a Lloegr ac o ganlyniad mae nifer y menywod sy’n cael eu herlyn wedi gostwng – ond maent yn dal i gyfrif am y rhan fwyaf o’r erlyniadau. Mae’r BBC yn dal i boeni am y gwahaniaeth ac mae wedi ymrwymo i wneud mwy i gefnogi’r rheini sydd ag anawsterau ariannol difrifol. Mae cynllun gweithredu wedi cael ei lunio gyda nifer o fesurau yn deillio’n uniongyrchol o’r awgrymiadau a wnaed gan randdeiliaid arbenigol ac mae treialon eisoes ar y gweill. Y bwriad yw gwella’r gefnogaeth i helpu unigolion i aros dan drwydded a lleihau’r risg o gael eu herlyn. Byddwn yn gweithio gyda’r llywodraeth i edrych ar y newidiadau rheoleiddiol sydd eu hangen i gynyddu argaeledd y Cynllun Talu Syml i fwy o aelwydydd.



Tim Davie
Cyfarwyddwr
Cyffredinol, BBC 27
Mehefin 2023

# Adroddiad Atebolrwydd

## Sail Paratoi Datganiad yr Ymddiriedolaeth

Mae cyfarwyddyd cyfrifon Trysorlys EF (gweler tudalen 37 Datganiad yr Ymddiriedolaeth hwn), a gyhoeddwyd o dan Adran 2 Deddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921, yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC baratoi Datganiad yr Ymddiriedolaeth i roi darlun cywir a theg o'r sefyllfa sy'n ymwneud â chasglu a setlo Ffioedd y Drwydded a'r incwm a'r gwariant refeniw a'r llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn ariannol. Rhoddir ystyriaeth i'r holl ofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol a roddir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EF a chanllawiau eraill a gyhoeddir gan Drysorlys EF a'r egwyddorion sy'n sail i'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Mae'r BBC wedi gweithio'n agos gyda Thrysorlys EF i sicrhau bod y polisïau cyfrifyddu sy'n sail i'r cyfrifon hyn yn gynhwysfawr, yn briodol ac yn cael eu cefnogi i lefel ddigonol o fanylder gan adroddiadau o systemau busnes.

Y refeniw a'r gwariant cysylltiedig sydd yn y datganiadau hyn yw'r llifoedd arian hynny rydym yn eu trin ar ran y Gronfa Gyfunol a lle rydym yn gweithredu fel asiant yn hytrach na chyfarwyddwr. Mae'r sail ar gyfer casglu ffi'r drwydded wedi cael ei chadarnhau gan y Siarter Frenhinol tan 2027-28. O ystyried hyn, mae'r cyfrifon hyn yn cael eu paratoi ar sail busnes hyfyw.

## Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â Datganiad yr Ymddiriedolaeth

Dan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y BBC a'r Swyddfa Gartref dyddiedig Mawrth 1991, pennwyd mai'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yw Swyddog Cyfrifyddu'r BBC sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros baratoi Datganiad yr Ymddiriedolaeth ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y ffurf ac ar y sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon.

Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am gyflwyno trwyddedau, cynnal cofnodion trwyddedau, casglu ffioedd trwyddedau, gorfodi'r system drwyddedu, talu refeniw ffi'r drwydded i'r Gronfa Gyfunol, penderfynu ar bolisi ad-dalu a gwneud ad-daliadau.

O dan adran 2(3) Deddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi a chyflwyno Datganiad yr Ymddiriedolaeth ar gyfer y BBC ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Wrth gydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF (gweler tudalen 37 Datganiad yr Ymddiriedolaeth hwn), mae Datganiad yr Ymddiriedolaeth yn adrodd ar y refeniw a gasglwyd a'r gwariant mewn perthynas â Ffi'r Drwydded a weinyddir gan y BBC yn ystod y flwyddyn, ynghyd â'r symiau net a gafodd eu rhoi i'r Gronfa Gyfunol.

Paratoir Datganiad yr Ymddiriedolaeth ar sail croniadau a rhaid iddo roi darlun cywir a theg o'r sefyllfa sy'n ymwneud â chasglu a setlo Ffi'r Drwydded Deledu, gan gynnwys Datganiad o Refeniw a Gwariant, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, a Datganiad Llifoedd Arian. Mae Datganiad yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys Datganiad Llywodraethu Corfforaethol sy'n nodi trefniadau llywodraethu, risg a rheoli'r BBC. Mae proses y Datganiad ar Lywodraethu Corfforaethol wedi'i chysylltu'n gadarn ac yn glir â'r broses rheoli risg yn y BBC.

Wrth baratoi Datganiad yr Ymddiriedolaeth, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ac, yn benodol, i:

- lynu wrth y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan Drysorlys EF, gan gynnwys gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol fel y nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau o bwys yn Natganiad yr Ymddiriedolaeth;

- paratoi Datganiad yr Ymddiriedolaeth ar sail busnes hyfyw; a
- chadarnhau bod Datganiad yr Ymddiriedolaeth yn ei gyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a chymryd cyfrifoldeb personol dros y dyfarniadau sy'n ofynnol er mwyn penderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a chysondeb y cyllid cyhoeddus y mae Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am gadw cofnodion cywir ac am ddiogelu asedau ffi'r drwydded yn Natganiad yr Ymddiriedolaeth, wedi'u nodi ym Memorandwm y Swyddogion Cyfrifyddu a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF ac a gyhoeddwyd yn *Rheoli Arian Cyhoeddus*.

Hyd y gŵyr y Swyddog Cyfrifyddu, mae Datganiad yr Ymddiriedolaeth yn ei gyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr Datganiad Ymddiriedolaeth Ffi Trwydded y BBC yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

## Archwilwyr

Mae gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ddyletswydd statudol dan Ddeddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921 a'r Cyfarwyddyd Cyfrifon gan Drysorlys EF i archwilio Datganiad yr Ymddiriedolaeth hwn. Ffi'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ar gyfer archwilio Datganiad yr Ymddiriedolaeth 2022-23 oedd £194,000 (2021-22 £187,000) sy'n cael ei godi ar sail dybiannol. Ni wnaeth yr archwilwyr unrhyw waith nad oedd yn ymwneud ag archwilio.

## Datganiad Llywodraethu

Mae Cod Llywodraethu Corfforaethol 2018 y DU, a gyhoeddir gan y Cyngor Adrodd Ariannol, yn cael ei ddefnyddio'n wirfoddol gan Grŵp y BBC lle bo hynny'n briodol. Gellir cael gwybod sut mae'r BBC yn cydymffurfio yn www.bbc.co.uk/annualreport. Nid yw Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU yn berthnasol i Ddatganiad yr Ymddiriedolaeth hwn.

### Bwrdd y BBC

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus fel y nodir yn y Siarter. Mae hefyd yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n ddigonol i ddangos ac egluro trafodion y BBC a datgelu sefyllfa ariannol y Grŵp yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Bwrdd ei gadeirio gan Richard Sharp, a ymddiswyddodd o'r rôl ar 28 Ebrill 2023 a chamodd i lawr o'r Bwrdd ar 27 Mehefin 2023. Ymgymerodd Elan Closs Stephens â rôl y Cadeirydd Dros Dro bryd hynny. Mae'r Bwrdd yn cynnwys hyd at ddeg cyfarwyddwr anweithredol ac mae hefyd yn cynnwys y Cyfarwyddwr Cyffredinol.

Penodwyd y Cadeirydd a chyfarwyddwyr anweithredol y pedair gwlad gan Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor ar argymhelliad Gweinidogion. Mae gweddill y Bwrdd yn cael eu penodi gan y BBC drwy Bwyllgor Enwebiadau'r Bwrdd. Ymunodd Deborah Turness â'r Bwrdd ar 5 Medi 2022, fel aelod Gweithredol. Ni fu unrhyw newidiadau eraill i aelodaeth y Bwrdd yn ystod y flwyddyn. Mae bywgraffiadau llawn holl aelodau'r Bwrdd, gan gynnwys eu rolau eraill, ar gael ar wefan y BBC: www.bbc.com/aboutthebbc/whoweare/bbcboard

Roedd agendâu'r Bwrdd yn ymdrin â sawl maes pwnc drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys diweddariadau rheolaidd ar gasglu incwm ffi'r drwydded.

### Pwyllgor Gwaith

I gefnogi a gweithredu gwaith y Bwrdd, mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cadeirio Pwyllgor Gwaith, sy'n gyfrifol am redeg y BBC o ddydd i ddydd.

Mae'r Pwyllgor Gwaith yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau'r BBC, yn unol â'r strategaeth y

mae'r Bwrdd wedi cytuno arni, ac am bob agwedd ar reoli gweithredol.

Mae'r Pwyllgor Gwaith yn cwrdd yn rheolaidd ac yn goruchwylio prosiectau strategol allweddol a chynigion sydd o bwys i'r sefydliad cyfan. Mae'n cymryd adroddiadau rheolaidd ar gynulleidfaoedd a pherfformiad ariannol, gan gynnwys refeniw a chasglu ffi'r drwydded, yn ogystal â goruchwylio materion polisi a gweithredol ar draws y BBC. Yr aelodau ar ddiwedd y flwyddyn oedd:

| |
|---|
| Tim Davie, Cyfarwyddwr Cyffredinol |
| Kerris Bright, Prif Swyddog Cwsmeriaid |
| Alan Dickson, Prif Swyddog Ariannol |
| Tom Fussell, Prif Swyddog Gweithredol, BBC Studios |
| Alice Macandrew, Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol y Grŵp |
| Charlotte Moore, Prif Swyddog Cynnwys |
| Uzair Qadeer, Prif Swyddog Pobl |
| Gautam Rangarajan, Cyfarwyddwr Grŵp Strategaeth a Pherfformiad |
| Rhodri Talfan Davies, Cyfarwyddwr, Gwledydd |
| Leigh Tavaziva, Prif Swyddog Gweithredu |
| Deborah Turness, Prif Swyddog Gweithredol, Newyddion a Materion Cyfoes y BBC |

## Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg (ARC) yn un o is-bwyllgorau'r Bwrdd. Roedd yr aelodaeth yn cynnwys y Cadeirydd, Shirley Garrood, Shumeet Banerji ac Elan Closs Stephens a ymunodd o fis Ebrill 2022 ymlaen.

Rôl y Pwyllgor yw helpu'r Bwrdd i oruchwylio gwaith llywodraethu corfforaethol yn y BBC, yn enwedig o ran adroddiadau ariannol, rheolaeth fewnol a rheoli risg. Yn ystod y flwyddyn, ceisiodd y Pwyllgor gyflawni'r cyfrifoldeb hwn drwy sicrhau agenda Pwyllgor eang a pherthnasol, gan graffu ac adolygu'n drwyadl ar bynciau'r agenda a, lle bo hynny'n briodol, ceisio cyngor arbenigwyr pwnc.

## Pwyllgor Enwebiadau

Mae Pwyllgor Enwebiadau'r Bwrdd yn gyfrifol am wneud argymhellion ar benodiadau i'r Bwrdd (ac eithrio'r Cadeirydd ac aelodau'r gwledydd) a Phwyllgorau'r Bwrdd.

Parhaodd aelodau'r Pwyllgor yr un fath eleni ac roedd yn cynnwys Cadeirydd y BBC, Richard Sharp, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Tim Davie, Nicholas Serota, yr uwch gyfarwyddwr annibynnol; a'r cyfarwyddwyr anweithredol Elan Closs Stephens a Shirley Garrood.

Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am oruchwylio materion llywodraethu sy'n ymwneud â gweithrediad y Bwrdd a'i is-bwyllgorau ac mae'n comisiynu gwerthusiad blynyddol.

Yn ogystal â'i gyfrifoldeb dros enwebu penodiadau i'r Bwrdd, mae'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am enwebu aelodau i is-bwyllgorau'r Bwrdd, a'i brif is-gwmnïau masnachol.

## Rheoli'r broses o Gasglu Ffi'r Drwydded

Mae elfennau allweddol o'r fframwaith llywodraethu corfforaethol sy'n benodol i gasglu Ffi'r Drwydded yn cynnwys:

- mae'r weithrediaeth yn gyfrifol am nodi a rheoli'r risgiau sy'n wynebu proses casglu Ffi'r Drwydded, a chynnal cofrestr risg, ynghyd â mesurau lliniaru
- mae swyddogaethau arbenigol yn goruchwylio'r gwaith o reoli rhai prif feysydd risg, fel diogelwch gwybodaeth, sicrhau bod fframweithiau priodol ar waith a pherchnogaeth effeithiol ar lefel uwch
- mae'r Bwrdd yn cael diweddariadau ac adroddiadau rheolaidd ar risgiau'r BBC a strategaethau lliniaru
- archwiliadau o'r rheolaethau dros gyfrifyddu derbynebau gan gwsmeriaid
- archwiliadau o reolaethau diogelwch gwybodaeth cyflenwyr
- adolygiadau o'r cofrestrau risg yn adran y BBC a chofrestrau risg ar y cyd â chyflenwyr i sicrhau bod risgiau'n cael eu cofnodi a bod camau lliniaru wedi cael eu cwblhau
- prosesau adrodd misol, chwarterol a blynyddol cynhwysfawr, o fewn grwpiau busnes a hyd at y

Bwrdd. Mae hyn yn cynnwys y system o fonitro ac adrodd ariannol i'r Bwrdd, yn seiliedig ar gyllideb flynyddol, adroddiadau misol ar ganlyniadau gwirioneddol, ail-ragamcanu rheolaidd a dadansoddi amrywiadau a ffactorau sbarduno allweddol
- prosesau i sicrhau y cydymffurfir â'r holl ddeddfau a rheoliadau perthnasol
- polisïau a gweithdrefnau ffurfiol sy'n ymwneud â'r holl brosesau busnes perthnasol, i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli a bod gwybodaeth amserol, berthnasol a dibynadwy ar gael ar draws y busnes
- prosesau i sicrhau bod ein staff yn broffesiynol ac yn gymwys, fel polisïau recriwtio, gwerthusiadau perfformiad a rhaglenni hyfforddi.

Mae gweddill y Datganiad Llywodraethu hwn yn ystyried llywodraethu fel y mae'n ymwneud â chasglu Ffi'r Drwydded.

# Asesiad Risg

Mae Bwrdd y BBC yn gyfrifol am sicrhau bod y BBC yn cael ei reoli'n effeithiol ac yn effeithlon, sy'n cynnwys diogelu ei asedau a sicrhau gwerth am arian drwy sicrhau bod proses ar waith ar gyfer rheoli risgiau sylweddol i'r BBC yn ogystal â chynnal system effeithiol o reolaeth fewnol.

Mae rheoli risg yn y BBC yn rhan annatod o gyflawni ein hamcanion busnes a'n dibenion cyhoeddus. Cyflawnir hyn drwy ymgysylltu â Bwrdd y BBC yn ei gyfanrwydd, sy'n gyfrifol am nodi risgiau a chyfleoedd a allai effeithio ar gynulleidfaoedd, strategaeth a gweithrediadau'r BBC. Mae ffactorau allanol a mewnol – yn ogystal â chyngor gan amrywiaeth o arbenigwyr mewnol ac annibynnol – yn cael eu hystyried wrth asesu cynllun busnes a phenderfynu ar y camau gweithredu mwyaf priodol.

Mae'r weithrediaeth yn gyfrifol am gynnal y gofrestr risg ar gyfer gweithgareddau casglu Ffi'r Drwydded y BBC. Mae'r prif risgiau sy'n cael eu nodi a'u rheoli yn ymwneud â'r ffactorau allanol sy'n effeithio ar faint y boblogaeth drwyddedadwy a gallu cwsmeriaid i brynu trwydded, risgiau i enw da'r BBC a brandiau TVL a allai effeithio ar barodrwydd cwsmeriaid i brynu Trwydded a risgiau sy'n ymwneud â pherthnasoedd a gweithrediadau cyflenwyr allweddol y BBC ar gyfer casglu Ffi'r Drwydded. Mae pob risg yn cael ei neilltuo i berchennog ac yn cael sgôr risg yn seiliedig ar ddifrifoldeb a thebygolrwydd. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd i adolygu'r gofrestr risg, nodi unrhyw ffactorau lliniaru a neilltuo camau gweithredu lle bo angen.

Mae asesiad y BBC o'r prif risgiau yn cael ei ddarparu yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC 2022/23.

## Cynnal Rheolaethau Mewnol gyda Threfniadau Casglu Allanol

Mae'r BBC yn contractio gyda chwmnïau eraill i ddarparu'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau ar gyfer casglu Ffi'r Drwydded. Mae gan bob un o'r sefydliadau hyn ei gyfrifoldebau rheolaeth fewnol ei hun sydd wedi'u nodi yn eu contractau gyda'r BBC. Y Cyfarwyddwr Cyffredinol, fel Swyddog Cyfrifyddu, sy'n gyfrifol yn y pen draw am sicrhau bod lefel briodol o reolaeth dros holl weithrediadau'r BBC, boed y rheini'n cael eu cyflawni'n uniongyrchol neu gan sefydliadau eraill.

Mae'r strwythur rheoli a llywodraethu mewnol wedi'i wreiddio yn y contractau gyda Capita Business Services Ltd, Target Group a PayPoint plc. Mae atodlenni i'r contractau sy'n ymwneud â'r rheolaethau mewnol dros reoli'r arian a gesglir ac â llywodraethu'r gweithrediadau casglu a rheoli contractau.

Mae gan y BBC yr hawl i archwilio'r sefydliadau sydd â chyfrifoldeb sylweddol dros gasglu arian cwsmeriaid. Mae'r archwiliadau hyn wedi'u cynllunio i sicrhau bod yr arian parod sydd wedi'i drosglwyddo i'r Gronfa Gyfunol a nifer a gwerth y trwyddedau a gyhoeddwyd yn gyflawn ac yn gywir ac yn cynnwys profion ac adroddiadau ar y rheolaethau mewnol dros y prif gronfeydd data sy'n cofnodi gwerthu trwyddedau.

## Diogelu Data a Gwybodaeth

Mae swyddogaethau craidd TV Licensing yn cynnwys rheoli a chynnal ei gronfeydd data cyfeiriadau, sy'n cynnwys manylion dros 30 miliwn o gyfeiriadau yn y Deyrnas Unedig, Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel a manylion talu ar gyfer dros 25 miliwn o gwsmeriaid trwyddedig.

Mae’r BBC wedi ymrwymo i sicrhau diogelwch a gwarchodaeth yr holl ddata personol mae’n ei brosesu ac i ddarparu dull cyson a chydymffurfiol o ran diogelu data a diogelu gwybodaeth. Mae ganddo brosesau ar waith i sicrhau bod yr holl ddata sy’n cael ei brosesu fel rhan o’i swyddogaethau TV Licensing yn cael ei wneud mewn ffordd sy’n cydymffurfio ac yn ddiogel. Mae hyn yn cynnwys:

1. contractau, polisïau a phrosesau cadarn ar waith gyda phob cyflenwr trydydd parti (a’u his-gontractwyr) sy’n gyfrifol am gasglu Ffi’r Drwydded;
2. sicrhau bod cyflenwyr yn cydymffurfio â safon diogelwch gwybodaeth arferion gorau rhyngwladol ISO27001;
3. cael gweithdrefnau i'w dilyn os bydd digwyddiad diogelwch; a
4. rhoi rheolaethau a mesurau ar waith i sicrhau cydymffurfiad parhaus.

Mae’n ofynnol i holl staff y BBC gwblhau hyfforddiant gorfodol ar Ddiogelu Data a Seiberddiogelwch bob dwy flynedd. Mae cyflenwyr trydydd parti Ffi’r Drwydded hefyd yn darparu hyfforddiant diogelu data i’w staff.

Mae’r BBC yn monitro cydymffurfiad y trydydd partïon hyn i roi sicrwydd mewn perthynas â darpariaethau contractau, polisïau, gweithdrefnau a hyfforddiant; ac i wneud unrhyw welliannau angenrheidiol lle bo angen.

Yn 2022/23, ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau data adroddadwy, na thorri diogelwch data mewn perthynas â swyddogaethau craidd TV Licensing y BBC. Roedd Capita Group yn destun digwyddiad seiber ym mis Mawrth 2023. Mae Capita wedi rhoi gwybod i’r BBC nad oedd y digwyddiad wedi effeithio ar ddata y BBC na data personol y rhai sy’n talu ffi’r drwydded. Mae’r BBC yn parhau i weithio gyda Capita gan ganolbwyntio ar unrhyw gamau angenrheidiol i atgyfnerthu amgylchedd seiberddiogelwch Capita. Mae’r BBC wedi rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am y digwyddiad er gwybodaeth.

## Gweithgarwch twyllodrus

Mae gan brif gyflenwyr gwasanaethau casglu Ffi’r Drwydded bolisïau twyll ar waith sy’n cael eu hadolygu a’u diweddaru i adlewyrchu newidiadau mewn prosesau a risgiau. Ymchwilir i bob achos o dwyll a amheuir. Mae’r rhan fwyaf o achosion o dwyll a nodir yn cael eu cyflawni gan aelodau o’r cyhoedd, er enghraifft, newid gwerth sieciau ad-daliad. Rhoddir gwybod am y digwyddiadau hyn i’r awdurdodau perthnasol fel y bo’n briodol.

Chwythu’r Chwiban: Mae polisi datgeliadau gwarchodedig ar waith, wedi’i gefnogi gan linell gymorth ‘chwythu’r chwiban’, a weinyddir gan gwmni allanol annibynnol i sicrhau anhysbysrwydd. Mae cyfarwyddwr anweithredol wedi cael ei enwi ar y polisi fel y cyswllt ar gyfer codi’r pryderon mwyaf difrifol.

## Fframwaith Rheolaeth Fewnol

Fel Swyddog Cyfrifyddu, fi sy’n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system reoli. Mae fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar waith yr archwilwyr mewnol a’r rheolwyr gweithredol yn yr adran sy’n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, a sylwadau a wneir gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Rwyf wedi cael gwybod am oblygiadau canlyniad fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan y bwrdd, y Pwyllgor Archwilio a Risg a chynllun i sicrhau bod y system yn cael ei gwella’n barhaus.

Nid oes unrhyw faterion rheoli sylweddol yn ymwneud â chasglu Ffi’r Drwydded.



Tim Davie
Cyfarwyddwr
Cyffredinol, BBC 27
Mehefin 2023

# ADRODDIAD Y RHEOLWR AC ARCHWILYDD CYFFREDINOL I DŶ'R CYFFREDIN

## Barn ar ddatganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Datganiad Ymddiriedolaeth Ffi Trwydded Deledu y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (BBC) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 o dan Ddeddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921.
Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys:

- Datganiad o Refeniw a Gwariant, a Datganiad Llifoedd Arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2023; a'r
- nodiadau cysylltiedig gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol sydd wedi cael ei ddefnyddio i baratoi'r datganiadau ariannol yw'r gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r gwaith o gasglu a setlo'r Ffi Trwyddedau Teledu ar 31 Mawrth 2023 ac o'r refeniw net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a
- maent wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921 a chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf honno.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd o bwys, mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) (ISA y DU), y gyfraith berthnasol a Nodyn Ymarfer 10 yr *Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol a rheoleidd-dra Cyrff Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig* (2022). Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yng nghyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol yn fy adroddiad.

Mae'r safonau hynny'n ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â *Safon Foesegol Ddiwygiedig y Cyngor Adrodd Ariannol* 2019. Rwy'n annibynnol ar Grŵp y BBC yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hynny.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes hyfyw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnydd y BBC o sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd o bwys sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r BBC i barhau fel busnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg y mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes hyfyw yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mae sail cyfrifyddu busnes hyfyw ar gyfer Datganiad Ymddiriedolaeth Ffi Trwydded Deledu'r BBC yn cael ei mabwysiadu gan ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EF, sy'n mynnu bod endidau'n mabwysiadu'r sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle rhagwelir y bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn parhau yn y dyfodol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd, ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol nac adroddiad fy archwilydd. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall.

Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir yn glir fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu fy ngwybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos fel arall ei bod yn cael ei chamddatgan yn sylweddol.

Os byddaf yn canfod anghysonderau o bwys neu gamddatganiadau o bwys tybiedig, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi ei wneud, yn casglu bod yna gamddatgan arwyddocaol yn y wybodaeth arall yma, mae'n ofynnol i mi adrodd ar y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd arno mewn perthynas â hynny.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a wnaed dan Ddeddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921;
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

## Materion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Ddatganiad Ymddiriedolaeth Ffi Trwydded Deledu'r BBC a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi dod o hyd i unrhyw gamddatganiadau o bwys yn yr Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd amdano mewn perthynas â'r materion canlynol yr wyf yn adrodd arnynt i chi os, yn fy marn i:

- Nid yw Ymddiriedolaeth Ffi Trwydded Deledu'r BBC wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol neu nid yw ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad wedi cael eu derbyn gan ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â nhw; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad yn cyd-fynd â'r ffurflenni a'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth a chanllawiau Trysorlys EM.

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â Datganiad Ymddiriedolaeth Ffi Trwydded Deledu'r BBC, mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am y canlynol:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- rhoi mynediad i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol at yr holl wybodaeth y mae'r rheolwyr yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol fel cofnodion, dogfennau a materion eraill;
- darparu'r wybodaeth a'r esboniadau ychwanegol sydd eu hangen ar y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ar gyfer ei archwiliad;
- rhoi mynediad digyfyngiad i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol at bobl yn Natganiad Ymddiriedolaeth Ffi Trwydded Deledu'r BBC y mae'r archwilydd yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol cael tystiolaeth archwilio ganddynt;
- sicrhau bod rheolaethau mewnol o'r fath ar waith fel sy'n angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol i fod yn rhydd o gamddatganiadau o bwys, boed hynny drwy dwyll neu gamgymeriad;
- sicrhau bod y datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg a'u bod yn cael eu paratoi yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a wnaed o dan Ddeddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921;
- sicrhau bod yr adroddiad blynyddol yn cael ei baratoi yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a wnaed o dan Ddeddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921; ac
- asesu gallu Datganiad Ymddiriedolaeth Ffi Trwydded Deledu'r BBC i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes hyfyw a defnyddio sail cyfrifyddu busnes hyfyw oni bai fod y Swyddog Cyfrifyddu'n rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Ddatganiad Ymddiriedolaeth Ffi Trwydded Deledu'r BBC yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r archwilydd am yr archwiliad o ddatganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau o bwys, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad sy'n cynnwys fy marn i.

Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (y DU) bob amser yn canfod camddatganiad o bwys pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad ac fe'u hystyrir yn sylweddol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

## I ba raddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll

Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ddod o hyd i gamddatganiadau o bwys yng nghyswllt peidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll. Mae manylion isod ynghylch i ba raddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll.

## Canfod ac asesu risgiau posibl sy'n gysylltiedig â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll

Wrth ganfod ac asesu risgiau o gamddatganiadau o bwys o ran peidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, rwyf wedi:

- ystyried natur y sector, yr amgylchedd rheoli a pherfformiad gweithredol gan gynnwys dyluniad polisïau cyfrifyddu'r BBC, dangosyddion perfformiad allweddol a chymhellion perfformiad.

- holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol y BBC a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau'r BBC ar:
    - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
    - canfod ac ymateb i risgiau twyll; a'r
    - rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n ymwneud â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys rheolaethau'r BBC sy'n ymwneud â chasglu a setlo ffioedd trwydded teledu gan gynnwys Deddf Darlledu 1990, Deddf Cyfathrebiadau 2003, Deddf yr Economi Ddigidol 2017 a rheoliadau cysylltiedig, a Siarter Frenhinol 2016 ar gyfer Parhad y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig;
- holi'r rheolwyr, Cyfarwyddwr Ansawdd, Risg a Sicrwydd y BBC a'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu:
    - a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
    - a oeddent yn gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, twyll a amheuir neu dwyll honedig,
- trafod gyda'r tîm ymgysylltu a'r arbenigwyr mewnol perthnasol, gan gynnwys arbenigwyr archwilio TG ynghylch sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion a allai fodoli yn y BBC ar gyfer twyll a nodais y potensial mwyaf ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, postio cyfnodolion anarferol, trafodion cymhleth a rhagfarn mewn amcangyfrifon rheoli a ffioedd trwydded y gellir eu hadennill. Yn yr un modd â phob archwiliad o dan ISAs (y DU), mae'n ofynnol i mi ddilyn gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg o wrth-wneud gan reolwyr.

Cefais ddealltwriaeth o fframwaith awdurdod y BBC a fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae'r BBC yn gweithredu ynddynt. Canolbwyntiais ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar symiau a datgeliadau sylweddol yn y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar y gweithrediadau o ran casglu a setlo ffioedd trwyddedau teledu. Roedd y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriais yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf Darlledu 1990, Deddf Cyfathrebiadau 2003, Deddf yr Economi Ddigidol 2017 a rheoliadau cysylltiedig, a Siarter Frenhinol 2016 ar gyfer Parhad y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig, Deddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921 a Rheoli Arian Cyhoeddus.

## Ymateb yr archwiliad i'r risg a nodwyd

Er mwyn ymateb i'r risgiau a nodwyd sy'n deillio o'r gweithdrefnau uchod:

- Adolygais y datgeliadau datganiadau ariannol a'r profion o ran y dogfennau ategol i asesu cydymffurfiad â darpariaethau'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a ddisgrifir uchod fel rhai sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;

- Holais y rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Risg ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;

- Adolygais gofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd; ac adroddiadau archwilio mewnol; ac

- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy ddiystyru rheolaethau gan reolwyr, fe wnes i brofi pa mor briodol oedd addasiadau â llaw; asesu a yw'r penderfyniadau ar amcangyfrifon yn dangos rhagfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu sydd y tu allan i'r busnes arferol.

Roeddwn hefyd wedi cyfleu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm ymgysylltu, gan gynnwys arbenigwyr mewnol, ac roeddwn yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities . Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad.

## Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Mae’n ofynnol i mi gael tystiolaeth sy’n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a’r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â’r awdurdodau sy’n eu llywodraethu.

Rwyf yn cyfathrebu â’r rheini sy’n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymysg materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio sylweddol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol y byddaf yn eu canfod yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i’w rhoi ar y datganiadau ariannol yma. Mae modd gweld fy adroddiad, dan Adran 2 Deddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921 ar Ddatganiad Ymddiriedolaeth Ffi Trwydded Deledu’r BBC ar dudalennau 27 i 36.

**Gareth Davies**      **30 Mehefin 2023**
**Rheolwr ac Archwiliwr Cyffredinol**
Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

# Datganiadau Ariannol

## Datganiad o Refeniw a Gwariant ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Mawrth 2023

| | Nodyn | 2023 £m | *2022 £m* |
|---|---|---|---|
| **Refeniw** | | | |
| Gwerth Trwyddedau | | **3,881** | 3,939 |
| Gwerth ad-daliadau | | **(43)** | (37) |
| Gwerth dirymiadau | | **(44)** | (46) |
| Gwerth premiymau ar ddebyd uniongyrchol chwarterol | | **15** | 16 |
| Refeniw Net | | **3,809** | 3,872 |
| **Llai gwariant** | | | |
| Colledion credyd | 2.2 | **(68)** | (72) |
| **Refeniw Net ar gyfer y Gronfa Gyfunol** | | **3,741** | 3,800 |

Ni roddwyd cyfrif am unrhyw enillion na cholledion cydnabyddedig y tu allan i'r Datganiad Refeniw a Gwariant uchod. Daw'r holl incwm o weithgareddau sy'n parhau. Mae'r nodiadau ar dudalennau 22 i 25 yn rhan o'r datganiad hwn.

# Datganiad o’r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2023

| | Nodyn | 2023<br>£m | *2022*<br>*£m* |
|---|---|---|---|
| **Asedau Cyfredol** | | | |
| Symiau derbyniadwy | 2.1 | **455** | 468 |
| Arian parod a ddelir ar gyfer cwsmeriaid ar gynlluniau cynilo | | **13** | 13 |
| **Cyfanswm asedau** | | **468** | 481 |
| **Rhwymedigaethau Cyfredol** | | | |
| Taliadau Dyledus | 3 | **(295)** | **(300)** |
| **Cyfanswm Asedau Net** | | **173** | **181** |
| Cynrychiolir gan: | | | |
| **Balans ar Gyfrif y Gronfa Gyfunol ar 31 Mawrth** | 4 | **173** | *181* |

Mae’r nodiadau ar dudalennau 22 i 25 yn rhan o’r datganiad hwn.



Tim Davie
Cyfarwyddwr
Cyffredinol, BBC 27
Mehefin 2023

# Datganiad Llifoedd Arian ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

| | Nodyn | 2023<br>£m | 2022<br>£m |
|---|---|---|---|
| **Mewnlif arian net o weithgareddau gweithredol** | **A** | **3,749** | 3,829 |
| **Arian a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol** | **4** | **(3,749)** | (3,830) |
| **Cynnydd / (Gostyngiad) mewn arian yn ystod y cyfnod** | | **0** | (1) |

**Nodiadau i'r Datganiad Llif Arian**

**A: Cysoni'r Llif Arian Net â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Net**

| | 2023 | 2022 |
|---|---|---|
| Refeniw Net ar gyfer y Gronfa Gyfunol | **3,741** | 3800 |
| Gostyngiad mewn Symiau Derbyniadwy | **13** | 26 |
| Cynnydd mewn Taliadau Dyledus | **(5)** | 3 |
| **Llif Arian Net o weithgareddau gweithredol** | **3,749** | 3829 |

**B: Dadansoddiad o'r Newidiadau mewn Cronfeydd Net (arian parod a ddelir ar gyfer cwsmeriaid ar gynlluniau cynilo)**

| | 2023 | 2022 |
|---|---|---|
| Gostyngiad mewn arian yn ystod y cyfnod | **0** | (1) |
| Cronfeydd Net ar 1 Ebrill | **13** | 14 |
| **Cronfeydd Net ar 31ain Mawrth** | **13** | 13 |

Sylwch fod balans terfynol yr arian Net ar 31ain Mawrth (£113m) yn cael ei gadw mewn banc masnachol.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 22 i 25 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau i Ddatganiad yr Ymddiriedolaeth

## 1. Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu

### *1.1* Sail y Cyfrifyddu

Mae Datganiad yr Ymddiriedolaeth yn cael ei baratoi yn unol â'r cyfarwyddyd cyfrifyddu a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF o dan adran 2(3) Deddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921. Mae Datganiad yr Ymddiriedolaeth yn cael ei baratoi yn unol â'r polisïau cyfrifyddu a nodir isod. Cytunwyd ar y rhain rhwng y BBC a Thrysorlys EF ac maent wedi cael eu datblygu yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EF. Mae'r polisïau cyfrifyddu yn y FReM yn defnyddio Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.

Yr incwm a'r gwariant cysylltiedig sydd wedi'u cynnwys yn y datganiadau hyn yw'r llifoedd arian hynny y mae'r BBC yn eu derbyn a'u hildio ar ran y Gronfa Gyfunol a lle mae'r BBC yn gweithredu fel asiant yn hytrach na chyfarwyddwr.

Mae'r sail ar gyfer casglu ffi'r drwydded wedi cael ei chadarnhau gan y Siarter Frenhinol tan 2027-28. O ystyried hyn, mae'r cyfrifon hyn yn cael eu paratoi ar sail busnes hyfyw.

Mae'r wybodaeth ariannol sydd yn y datganiadau ac yn y nodiadau wedi'i thalgrynnu i'r £m agosaf.

### *1.2* Newidiadau mewn polisi cyfrifyddu a datgeliadau

Mabwysiadu safonau cyfrifyddu newydd a diwygiedig

Mae'r safonau a'r dehongliadau newydd a diwygiedig canlynol wedi cael eu hystyried am y tro cyntaf, wrth iddynt ddod yn weithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol hon:

- Cyfeiriad at y Fframwaith Cysyniadol (Diwygiadau i IFRS 3 Cyfuniadau Busnes)
- Eiddo, Offer a Chyfarpar: Enillion cyn Defnydd Bwriadedig (Diwygiadau i IAS 16)
- Contractau Beichus – Cost Cyflawni Contract (Diwygiadau i IAS 37)
- Gwelliannau Blynyddol 2018 – 2020

Mae'r rhain wedi cael eu cymhwyso lle bo'n berthnasol i Ddatganiad yr Ymddiriedolaeth.

### *1.3* Confensiwn Cyfrifyddu

Paratowyd Datganiad yr Ymddiriedolaeth ar sail croniadau ac yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol.

### *1.4* Cydnabod Refeniw

Mae refeniw sy'n deillio o drwyddedau teledu yn cael ei gydnabod yn llawn i ddechrau fel swm derbyniadwy gan dalwyr Ffi'r Drwydded pan ddaw'r drwydded i rym. Refeniw gros yw hwn. Mae refeniw net ar gyfer y gronfa gyfunol yn cynrychioli'r gwerth a gesglir a disgwylir y gellir ei gasglu ar ôl didynnu ad-daliadau, dirymiadau a cholledion credyd.

### *1.5* Osgoi Ffi'r Drwydded

Mae gwerth y trwyddedau a osgowyd, y gwahaniaeth rhwng gwerth trwyddedau y gellid eu casglu o bob cyfeiriad trwyddedadwy a'r gwerth a gesglir mewn gwirionedd, y tu allan i gwmpas y datganiadau ariannol yn Natganiad yr Ymddiriedolaeth hwn. Trafodir lefel yr osgoi yn ystod y flwyddyn yn y sylwebaeth rheolwyr.

### *1.6* Ad-daliadau, Dirymiadau a Chanslo

Rhoddir ad-daliadau i gwsmeriaid lle gallant ddangos eu bod wedi talu am drwydded nad oes ei hangen mwyach. Mae diddymu a chanslo yn golygu gwerth trwyddedau sy'n cael eu diddymu a thaliadau rhandaliadau sy'n ddyledus sy'n cael eu dileu pan nad yw cwsmer wedi talu ei randaliadau.

Dangosir gwerth taliadau rhandaliadau dyledus wedi'u dileu fel traul yn y Datganiad Refeniw a Gwariant. Mae ad-daliadau a mathau eraill o ganslo yn cael eu dangos fel gostyngiad mewn incwm.

## *1.7* Symiau Derbyniadwy Ffi'r Drwydded

Mae derbyniadau Ffi'r Drwydded yn cynrychioli:

- Y symiau sy'n dderbyniadwy gan gwsmeriaid ar gynlluniau rhandaliadau lle mae trwydded wedi'i chyhoeddi, ond nad yw swm llawn y ffi wedi'i dalu eto.
- Arian ar y ffordd sydd wedi cael ei gasglu gan gwsmeriaid ar gyfer trwyddedau sydd mewn grym, ond nad yw wedi cael ei drosglwyddo i gyfrif banc Llywodraeth EF sy'n cael ei reoli gan y BBC.

## *1.8* Amhariad ar Symiau Derbyniadwy

Mae Datganiad yr Ymddiriedolaeth y tu allan i gwmpas Safon Cyfrifyddu IFRS 9 Offerynnau Ariannol, gan mai trethi yw ffioedd y drwydded yn hytrach na swm derbyniadwy drwy fasnach offerynnau ariannol. Fodd bynnag, fel sy'n ofynnol gan FReM, mae egwyddorion IFRS 9 yn cael eu cymhwyso i'r model colled credyd disgwyliedig ar gyfer derbyniadau ffi'r drwydded, er cysondeb ar draws y llywodraeth. Mae'r gwerth amhariad hwn yn cael ei amcangyfrif ar sail gwerth y canslo yn y flwyddyn gyfredol, fel y'i haddaswyd i adlewyrchu'r amgylchedd economaidd presennol ac yn y dyfodol. Mae'r symudiad yn y balansau amhariad o un flwyddyn i'r llall wedi'i gynnwys gyda dyledion gwirioneddol y flwyddyn flaenorol yn cael eu dileu fel colledion credyd yn y Datganiad Refeniw a Gwariant.

## *1.9* Taliadau Dyledus

### Taliadau Dyledus Ffi'r Drwydded

Mae'r symiau sy'n daladwy ar gyfer Ffi'r Drwydded yn cynrychioli'r symiau a gesglir gan gwsmeriaid ar gynlluniau rhandaliadau ar gyfer trwyddedau nad ydynt wedi cael eu cyhoeddi eto. Ar ôl i'r trwyddedau hyn gael eu cyhoeddi, bydd yr arian hwn yn cael ei dalu i'r Gronfa Gyfunol.

### Cynilion cwsmeriaid

Mae cynilion cwsmeriaid yn cynrychioli arian a gesglir gan gwsmeriaid ar gerdyn cynilo i dalu tuag at eu trwydded nesaf. Dangosir y balans arian parod gyda symiau taladwy cyfatebol gan nad yw'r arian yn ddyledus i'r Gronfa Gyfunol nes bod angen adnewyddu trwydded y cwsmer. Gall gwahaniaethau amseru o ran taliadau arwain at wahaniaethau rhwng yr arian parod a'r balans sy'n daladwy.

Mae arian parod a gesglir gan gwsmeriaid ar y cynllun cynilo sydd wedi cau yn cael ei gadw gan y BBC. Er na ellir ei ddefnyddio bellach i brynu trwydded, mae'n ad-daladwy i'r cwsmeriaid hynny ar gais. Mae'r balans heb ei ddychwelyd wedi'i gynnwys yng nghyfrifon Grŵp y BBC yn hytrach na chyfrifon Datganiad yr Ymddiriedolaeth.

### Incwm Gohiriedig

Rhoddir cyfrif am arian a gesglir gan gwsmeriaid sy'n adnewyddu eu trwyddedau ac sydd wedi talu am eu trwydded yn llawn cyn i'r trwyddedau ddod i rym fel incwm gohiriedig.

## 2. Symiau derbyniadwy

### *2.1 Symiau sy'n ddyledus ar 31ain Mawrth*

| | Nodyn | **2023 £m** | *2022 £m* |
|---|---|---|---|
| Symiau Derbyniadwy Ffi'r Drwydded | | **477** | 489 |
| Arian ar y ffordd | | **11** | 11 |
| Cyfanswm cyn yr amcangyfrif o'r amhariadau | | **488** | 500 |
| Llai amhariadau wedi'u hamcangyfrif | **2.3** | **(33)** | (32) |
| | | **455** | 468 |

Mae symiau derbyniadwy yn cynrychioli'r swm sy'n ddyledus gan drwyddedeion ar 31 Mawrth pan:

i) fod y galw am daliad wedi'i gyhoeddi ond na thalwyd amdano; neu

ii) lle mae gan y rheini sy'n dal trwyddedau randaliadau sy'n ddyledus.

Bydd yr holl ddyledion yn ddyledus i'r Gronfa Gyfunol pan gânt eu gwireddu.

### *2.2 Colledion credyd*

| | Nodyn | **2023 £m** | *2022 £m* |
|---|---|---|---|
| Dyledion wedi'u dileu | | **(67)** | (72) |
| Newid yng ngwerth amhariadau | **2.3** | **(1)** | (0) |
| | | **(68)** | (72) |

Mae dyledion yn cael eu dileu pan fydd gweithgarwch casglu'n dod i ben yn ffurfiol. Ystyrir nad oes modd adennill y dyledion hyn pan fydd yr holl ddulliau ymarferol o fynd ar drywydd yr atebolrwydd wedi'u disbyddu.

### *2.3 Newid yng ngwerth amhariadau*

| | **2023 £m** | *2022 £m* |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | **(32)** | (32) |
| Newid yn y gwerth a amcangyfrifir ar gyfer amhariadau | **(1)** | (0) |
| Balans ar 31 Ebrill | **(33)** | (32) |

Adroddir ar symiau derbyniadwy yn y datganiad sefyllfa ariannol ar ôl tynnu amcangyfrif o werth amhariadau. Mae'r amcangyfrif hwn yn seiliedig ar werth canslo yn y flwyddyn flaenorol, fel y'i haddaswyd i adlewyrchu'r amgylchedd economaidd presennol ac yn y dyfodol. Mae'r symudiad yn y balansau amhariad o un flwyddyn i'r llall wedi'i gynnwys gyda dyledion gwirioneddol y flwyddyn flaenorol yn cael eu dileu fel colledion credyd yn y Datganiad Refeniw a Gwariant.

## 3. Taliadau Dyledus

| | **2023 £m** | *2022 £m* |
|---|---|---|
| Taliadau Dyledus Ffi'r Drwydded | **257** | 261 |
| Cynilion cwsmeriaid | **13** | 13 |
| Incwm Gohiriedig | **25** | 26 |
| | **295** | 300 |

Nid oes unrhyw symiau taladwy'n ddyledus ar ôl blwyddyn.

## 4. Balans ar Gyfrif y Gronfa Gyfunol

| | **2023** | *2022* |
|---|---|---|
| | **£m** | *£m* |
| Balans ar Gyfrif y Gronfa Gyfunol ar 1 Ebrill | **181** | 211 |
| Refeniw Net ar gyfer y Gronfa Gyfunol | **3,741** | 3800 |
| Llai swm a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol | **(3,749)** | (3,830) |
| Balans ar Gyfrif y Gronfa Gyfunol ar 31 Mawrth | **173** | 181 |

Mae'r gweddill yn cynnwys gwerth net Dyledwyr ffi'r drwydded (y rheini sy'n talu ôl-ddyledion am eu trwydded deledu) a Chredydwyr ffi'r drwydded (y rheini sy'n talu ymlaen llaw). Mae sefyllfa'r dyledwr net yn ymwneud â chwsmeriaid sy'n talu drwy Ddebyd Uniongyrchol Chwarterol, pobl dros 75 oed sy'n defnyddio'r cynllun Paygo a chwsmeriaid ar y Cynllun Talu Syml.

## 5. Offerynnau Ariannol

Ar ran y Gronfa Gyfunol, mae'r BBC yn rhan o drefniadau offerynnau ariannol fel rhan o'i weithrediadau arferol. Mae'r offerynnau ariannol hyn yn cynnwys cyfrifon banc, symiau derbyniadwy a symiau taladwy. Mae IFRS 7, 'Offerynnau Ariannol: Datgeliadau', yn gofyn am ddatgelu'r rôl y mae offerynnau ariannol wedi'i chael yn ystod y flwyddyn o ran creu neu newid y risgiau y mae endid yn eu hwynebu yn ystod ei weithrediadau. Gan fod y BBC yn gweithredu fel asiant ar ran y Gronfa Gyfunol ac yn ildio'r cronfeydd hyn pan gânt eu derbyn, ni all ysgwyddo colledion drwy Ddatganiad yr Ymddiriedolaeth. Mae taliadau dileu ac amharu a ddatgelir yn y Datganiad Refeniw a Gwariant yn adlewyrchu'r ffaith nad oes modd adennill dyledion gros gan fod ei rwymedigaeth i ildio cosbau ariannol wedi'i chyfyngu i'r swm y gall ei gasglu mewn refeniw. Nid oes unrhyw ofyniad ar y BBC, ar ran y Gronfa Gyfunol, i fenthyca neu fuddsoddi arian dros ben. O'r herwydd, nid yw'r BBC, yn rhinwedd ei swydd fel asiant, yn agored i'r un risg ariannol neu risg i'r farchnad sy'n wynebu endid busnes sy'n gweithredu fel prif noddwr.

## 6. Partïon cysylltiedig

Mae gan TV Licensing a'r BBC nifer fawr o drafodion gyda phartïon cysylltiedig. Mae trwyddedau'n cael eu prynu gan y BBC a chyflenwyr sy'n ymwneud â chasglu Ffi'r Drwydded ar gyfer llefydd trwyddedadwy y maent yn eu meddiannu. Mae cyfarwyddwyr a staff y BBC hefyd yn prynu Trwyddedau Teledu at eu defnydd eu hunain. Nid yw'r trafodion hyn yn cael eu hystyried yn rhai o bwys.

Nid oes yr un o'r cyfarwyddwyr na phartïon cysylltiedig eraill wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion o bwys sy'n ymwneud â TV Licensing yn ystod y flwyddyn.

## 7. Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd sy'n effeithio'n sylweddol ar y datganiadau ariannol hyn.

Awdurdododd y Swyddog Cyfrifyddu'r datganiadau ariannol hyn i'w cyhoeddi ar y dyddiad yr adroddodd y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ar y cyfrifon.

# Atodiad 1 – Cysoni â Phrif Adroddiad Blynyddol y BBC ar Incwm Ffi'r Drwydded

| | **2023 £m** | *2022 £m* |
|---|---|---|
| Gwerthiannau ffi'r drwydded yn cyfrannu at y Gronfa Gyfunol | **3,741** | 3,800 |
| Symudiad mewn Incwm Gohiriedig | **(1)** | 0 |
| Incwm Ffi Trwydded y BBC yn Nodyn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol B1 | **3,740** | 3,800 |

# Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin

## Crynodeb

**1** Rhaid i bawb yn y DU sy'n gwylio neu'n recordio rhaglenni fel y maent yn cael eu dangos ar y teledu; sy'n gwylio ffrydiau byw drwy wasanaeth teledu ar-lein; neu sy'n lawrlwytho neu'n gwylio rhaglenni'r BBC ar iPlayer, boed yn fyw, drwy ddal i fyny neu ar-alw (cynnwys trwyddedadwy) gael trwydded deledu ddilys. Mae'r BBC yn gyfrifol am gyhoeddi trwyddedau teledu, casglu refeniw ffi'r drwydded a gorfodi'r system drwyddedu. Mae Siarter Frenhinol y BBC[2] yn mynnu bod Bwrdd y BBC yn sicrhau bod y trefniadau ar gyfer casglu ffi'r drwydded yn effeithlon, yn briodol ac yn gymesur. Uned Ffi Trwydded y BBC (yr Uned) sy'n rheoli'r gwaith o gasglu ffi'r drwydded, sy'n gweithio gyda thri phrif ddarparwr gwasanaeth o dan y nod masnach "TV Licensing" (TVL). Hefyd, mae'r Uned yn gyfrifol am gyfrifo amcangyfrif blynyddol o gyfradd osgoi ffi'r drwydded.

**2** Yn unol ag Adran 2 Deddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921, mae'n ofynnol i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol asesu digonolrwydd trefniadau'r BBC ar gyfer asesu, casglu a dyrannu ffi'r drwydded yn briodol. Yr adroddiad hwn yw ein sylwebaeth ar waith y BBC o gasglu ffi'r drwydded yn 2022-23 ac mae'n nodi ein canfyddiadau a'n casgliadau ynghylch y symiau mae'r BBC wedi'u casglu gan dalwyr ffi'r drwydded yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac amcangyfrif y BBC o gyfradd osgoi talu ffi'r drwydded. Mae Error! Reference source not found. yn rhoi manylion ynghylch sut mae'r BBC yn adrodd ar sut mae'n casglu ac yn defnyddio incwm ffi'r drwydded.

**Ffigur 1: Gwybodaeth am ffi'r drwydded**

Mae'r ffynonellau canlynol yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am incwm ffi'r drwydded:

| | |
|---|---|
| Datganiad Ymddiriedolaeth Ffi Trwydded Deledu'r BBC ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 | Datganiad yr Ymddiriedolaeth yw adroddiad manwl y BBC ar yr incwm o ffi'r drwydded a gasglwyd ganddo yn 2022-23. Fe'i cyhoeddir ar yr un pryd â'r adroddiad hwn ac mae'r wybodaeth ynddo wedi cael ei defnyddio yn yr adroddiad hwn.<br>Dan Ddeddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921, mae'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol (C&AG) wedi ardystio:<br>• bod y ffigurau yn Natganiad yr Ymddiriedolaeth yn wir ac yn deg ac wedi'u cyflwyno'n briodol; a<br>• mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn Natganiad yr Ymddiriedolaeth wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd. |
| Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Grŵp y BBC, 2022-23 | Mae'r Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol yn cynnwys manylion ynghylch sut y gwariodd y BBC ei incwm yn 2022-23, gan gynnwys yr hyn sy'n deillio o ffi'r drwydded.<br>O dan delerau Siarter Frenhinol y BBC yn 2016, mae'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol wedi archwilio Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Grŵp y BBC ac wedi ardystio:<br>• bod y datganiadau ariannol yn wir ac yn deg;<br>• bod y datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi'n briodol; a<br>• mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd. |

[2] Paragraff 20 (7) (b) o Siarter Frenhinol y BBC - https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment/data/file/577829/57964/CM/9365-Charter-Accessible.pdf

## Canfyddiadau allweddol

**Casglu Ffi'r Drwydded yn 2022-23**

**3** Roedd cyfanswm incwm ffi'r drwydded yn 2022-23 wedi gostwng o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd cyfanswm yr incwm net o werthu trwyddedau yn £3,741 miliwn yn 2022-23. Roedd hyn £59 miliwn (1.6%) yn llai nag incwm net o werthu trwyddedau teledu o £3,800 miliwn yn 2021-22. Dyma'r gostyngiad cyntaf yn incwm ffi'r drwydded ers y gostyngiad yn 2019-20 oherwydd pandemig COVID-19 (paragraff 1.3 a Ffigur 2).

**4 Roedd gwerthiant trwyddedau yn 2022-23 wedi gostwng wrth i nifer y trwyddedau y telir amdanynt ostwng tua 420,000 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.** Yn 2022-23, cyhoeddodd TVL 23.50 miliwn o drwyddedau y talwyd amdanynt o'i gymharu â 23.92 miliwn yn 2021-22. Roedd TVL wedi rhoi tua 759,000 o drwyddedau am ddim i'r rheini sydd dros 75 oed ac ar Gredyd Pensiwn, gostyngiad o'i gymharu â 765,000 yn 2021-22 (paragraff 1.3 a Ffigur 2).

**5 Yn ystod 2022-23, mae nifer y cwsmeriaid sy'n datgan nad oes angen trwydded arnynt wedi cynyddu tua 360,000 i 2.84 miliwn o 2.48 miliwn yn 2021-22.** Mae cwsmeriaid sy'n gwylio cynnwys llai trwyddedadwy, ac arafu o ran twf nifer yr aelwydydd, hefyd yn lleihau nifer posibl y cwsmeriaid a allai fod angen trwydded. Mae'r BBC wedi asesu mai dyma'r ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at ostyngiad yn incwm ffi'r drwydded a thrwyddedau y telir amdanynt (paragraffau 1.4 i 1.6).

**6 Mae costau casglu ffi'r drwydded wedi cynyddu.** Yn 2022-23, gwariodd y BBC £156.5 miliwn ar gasglu ffi'r drwydded, cynnydd o £14.3 miliwn o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, oherwydd cynnydd mewn costau allanol. O ganlyniad i'r cynnydd hwn mewn costau a'r gostyngiad yn incwm ffi'r drwydded, cynyddodd y gost gasglu fel canran o'r incwm yn 2022-23 i 3.7%, i fyny o 3.2% yn y flwyddyn flaenorol (paragraffau 1.8 a 1.9 a Ffigur 3).

**7 Mae'r BBC, gyda'i bartneriaid cyflenwi, yn uwchraddio'r amgylchedd gweithredol a TG a ddefnyddir i gasglu ffi'r drwydded.** Nod y newidiadau hyn yw gwella profiad y cwsmer, creu arbedion effeithlonrwydd a sicrhau TG sefydlog, gyda chefnogaeth. Fel rhan o'r rhaglen moderneiddio TG hon, dechreuodd uwchraddio gwefan TVL yn 2022-23. Disgwylir y cytunir ar drywydd diwygiedig ar gyfer y rhaglen ym mis Gorffennaf 2023 (paragraffau 1.11 i 1.13).

**8 Eleni oedd y flwyddyn gyntaf nad yw ffi'r drwydded wedi cynyddu yn unol â chwyddiant ers 2017-18.** Ym mis Ionawr 2022, cadarnhaodd y llywodraeth gost ffi'r drwydded am ddwy flynedd a'r sail ar gyfer codiadau yn y dyfodol hyd at 2027-28. Cafodd cost ffi'r drwydded ei rhewi ar £159 am ddwy flynedd; 2022-23 a 2023-24. Bydd wedyn yn codi yn unol â chwyddiant am y pedair blynedd ganlynol, 2024-25 i 2027-28. Mae'r BBC wedi amcangyfrif y bydd y rhewi hwn yn arwain at golli £400m o incwm dros weddill cyfnod y siarter (paragraff 1.15).

**Osgoi Ffi'r Drwydded yn 2022-23**

**9 Roedd cyfradd osgoi ffi'r drwydded wedi cynyddu i amcangyfrif o 10.3% yn 2022-23.** Mae hyn yn gynnydd o 0.93% pwynt canran o'r gyfradd amcangyfrifedig o 9.38% yn 2021-22 a dyma'r tro cyntaf ers 1995 i'r gyfradd osgoi amcangyfrifedig fod yn fwy na 10%. Mae strategaeth casglu ffi'r drwydded y BBC yn nodi bod newid mewn arferion gwylio, arafu o ran twf aelwydydd a heriau costau byw yn cynyddu'r risg o osgoi talu. Mae'r BBC yn amcangyfrif bod pob gostyngiad pwynt canran yn y gyfradd osgoi y gall ei gyflawni yn cyfateb i tua £43 miliwn o refeniw ychwanegol (paragraffau 2.1 i 2.6 a Ffigur 4).

**10 Mae nifer yr erlyniadau am beidio â thalu ffi'r drwydded wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf.** Canfu ymchwil y BBC fod llai o osgoi yn gysylltiedig â chynnydd mewn gweithgareddau gorfodi TVL, fel galwadau, ymweliadau ac erlyniadau. Oherwydd cyfyngiadau COVID-19, cafodd ymweliadau gorfodi eu hatal yn ystod 2020 a dechrau 2021. Cafodd hyn effaith ar nifer yr erlyniadau, a oedd wedi gostwng o tua 114,000 yn 2019 i 40,220 o erlyniadau am beidio â thalu ffi'r drwydded yn 2022. Mae prinder Swyddogion Maes wedi effeithio ar weithgareddau gorfodi – gan gynnwys erlyniadau – yn ystod 2022-23 (paragraffau 2.8 a 2.9).

**11** **Mae'r BBC yn ceisio mynd i'r afael ag osgoi drwy ddarparu mwy o gymorth i'r rheini sy'n wynebu caledi ariannol.** Mae dadansoddiad y BBC o ddata osgoi yn dangos bod newidiadau mewn incwm gwario a chostau byw yn effeithio ar werthiant ffi'r drwydded. Yn ystod 2022-23, creodd TVL 'tîm atebion taliadau' a allai helpu cwsmeriaid i dalu, gan gynnwys atgyfeiriadau at elusennau dyled neu gynyddu ymwybyddiaeth o gymhwysedd Credyd Pensiwn ar gyfer pobl dros 75 oed (paragraffau 2.10 i 2.12).

**12** **Mae erlyniadau'n effeithio'n anghymesur ar fenywod, sy'n wynebu dros 75% o'r holl erlyniadau am beidio â thalu ffi'r drwydded.** Canfu Adolygiad o Wahaniaethau ar sail Rhywedd y BBC nad oedd tystiolaeth o wahaniaethu gan TVL a bod yr anghydbwysedd mewn erlyniadau yn deillio o ffactorau cymdeithasol fel cyfansoddiad aelwydydd. Mae'r BBC wedi creu cynllun 10 pwynt mewn ymateb i'r adolygiad hwn, gan gynnwys ehangu mynediad at y Cynllun Talu Syml ar gyfer y rheini sy'n wynebu caledi ariannol (yn amodol ar newidiadau rheoleiddiol) (paragraffau 2.13 a 2.14).

**13** **Mae'r BBC yn disgwyl i incwm ffi'r drwydded ostwng ymhellach oherwydd newidiadau yn y ffordd mae cynulleidfaoedd yn defnyddio cyfryngau.** Yn ystod 2022-23, nododd ymchwil y BBC fod 79% o gynnwys y BBC ar iPlayer yn cael ei wylio ar-alw yn hytrach nag yn fyw, gyda thri chwarter y cyhoedd yn defnyddio iPlayer, a 30% o ffrydiau iPlayer yn defnyddio dyfeisiau ar wahân i set deledu. Mae strategaeth digidol yn gyntaf y BBC yn cydnabod y newidiadau hyn a'r her o gadw i fyny â nhw (paragraffau 1.6 a 2.15).

**14** **Er mwyn lleihau'r nifer sy'n osgoi a'r newid mewn arferion gwylio oddi wrth gynnwys trwyddedadwy, mae'r BBC yn bwriadu dangos y manteision sy'n cael eu darparu drwy ffi'r drwydded.** Yn ystod 2022-23, mae'r BBC wedi treialu cyfathrebiadau wedi'u targedu i ddangos y gwerth a gafwyd o ffi'r drwydded ac mae wedi egluro beth yw cynnwys trwyddedadwy ar wefan TVL a thrwy dîm penodol. Bydd yn gwerthuso effaith y mentrau hyn yn ystod 2023-24 (paragraffau 2.15 i 2.18).

**15** **Mae dyfodol tymor hir ffi'r drwydded yn cael ei adolygu.** Cadarnhaodd y Llywodraeth yn ei Phapur Gwyn Ebrill 2022 "Nesaf: Gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer y Sector Darlledu" ei bwriad i gynnal adolygiad o'r model cyllido trwyddedau ar ôl mis Rhagfyr 2027. Ailgadarnhaodd y Llywodraeth ei bwriad i adolygu dyfodol ffi'r drwydded ym mis Ebrill 2023, ond nid yw hyn wedi dechrau eto (paragraff 1.16).

## Casgliad

**16** Wrth gyflawni fy nyletswyddau statudol o dan Ddeddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921, gan gydnabod na all unrhyw system casglu trethi sicrhau bod pawb yn bodloni eu rhwymedigaethau treth, rwy'n dod i'r casgliad bod y BBC yn 2022-23 wedi llunio rheoliadau a gweithdrefnau digonol i sicrhau archwiliad effeithiol o'r gwaith o asesu, casglu a dyrannu refeniw ffi'r drwydded yn briodol, a bod y rheoliadau a'r gweithdrefnau hyn yn cael eu rhoi ar waith yn briodol. Mae'r sicrwydd hwn yn amodol ar yr arsylwadau ar agweddau penodol ar weinyddu trethi yn yr adroddiad hwn a'm hadroddiadau eraill i'r Senedd.

**17** Yn ogystal â'm dyletswyddau statudol dan Ddeddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921, rwyf wedi dod i'r casgliad, ar sail nifer y trwyddedau y talwyd amdanynt:

- bod y ffigurau yn Natganiad yr Ymddiriedolaeth yn wir ac yn deg; a
- mae'r incwm a'r gwariant a gofnodir yn Natganiad yr Ymddiriedolaeth yn unol â'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a fframwaith yr awdurdodau.

**18** Mae Deddf 1921 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ystyried a yw systemau refeniw'r BBC i gasglu trethi yn ddigonol. Cefais fod systemau refeniw'r BBC yn ddigonol yn amodol ar yr arsylwadau yn yr adroddiad hwn a'm hadroddiadau eraill i'r Senedd.

**19** Mae incwm ffi'r drwydded wedi gostwng wrth i gostau casglu a chyfraddau osgoi gynyddu. Mae'r BBC yn wynebu heriau o ran uchafu incwm ffi'r drwydded i ddarparu ei wasanaethau, wrth i wylwyr newid i wylio cynnwys na ellir ei drwyddedu, a chostau byw godi. Am y tro cyntaf ers 1995, amcangyfrifir bod y gyfradd osgoi dros 10%, sy'n cynrychioli tua £430 miliwn o refeniw a gollwyd. Mae'r heriau hyn yn cael eu dwysau gan

ansicrwydd ynghylch model cyllido'r dyfodol ar ôl-2027. Bydd llwyddiant cynlluniau parhaus ac arfaethedig i ddangos gwerth trwydded a chefnogi cwsmeriaid i dalu yn allweddol i wrthdroi'r gostyngiad yn y trwyddedau a gyhoeddir.

# Rhan Un: Casglu Ffi'r Drwydded yn 2022-23

1.1. Rhaid i bawb yn y DU sy'n gwylio neu'n recordio rhaglenni fel y maent yn cael eu dangos ar y teledu; sy'n gwylio ffrydiau byw drwy wasanaeth teledu ar-lein; neu sy'n lawrlwytho neu'n gwylio rhaglenni'r BBC ar iPlayer, boed yn fyw, drwy ddal i fyny neu ar-alw (cynnwys trwyddedadwy) gael trwydded deledu ddilys. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, pobl mewn cartrefi preswyl, busnesau, gwestai a llety myfyrwyr. Mae'r BBC yn gyfrifol am gyhoeddi trwyddedau teledu, casglu refeniw ffi'r drwydded a gorfodi'r system drwyddedu.

1.2. Uned Ffi Trwydded y BBC (yr Uned) sy'n rheoli'r gwaith o gasglu ffi'r drwydded, sy'n gweithio gyda thri phrif ddarparwr gwasanaeth: RAPP Ltd, sy'n darparu gwasanaethau marchnata; Capita Business Services Ltd (Capita), sy'n gweinyddu'r gwaith o gasglu ffi'r drwydded; a Target, sy'n rheoli'r Cynllun Taliad Syml (SPP) ar gyfer y rheini sy'n cael yr anhawster mwyaf i dalu am drwydded deledu. Gyda'i gilydd, mae'r Uned a'r contractwyr hyn yn gweithredu dan y nod masnach "TV Licensing" (TVL). Hefyd, darperir gwasanaethau dros y cownter gan PayPoint plc yn y DU, a chan Swyddfeydd Post Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel. TVL sy'n casglu incwm Ffi'r Drwydded sy'n ddyledus, sydd wedyn yn cael ei dalu i'r BBC gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i ddarparu rhaglenni a gwasanaethau teledu, radio, digidol y BBC.

## Gwerthiannau ac incwm ffi'r drwydded yn 2022-23

1.3 Roedd cyfanswm yr incwm net o werthu trwyddedau yn £3,741 miliwn yn 2022-23. Roedd hyn £59 miliwn (1.6%) yn llai nag incwm net o werthu trwyddedau teledu o £3,800 miliwn yn 2021-22 (**Ffigur 2**), a £23 miliwn (0.6%) yn llai na rhagolwg y BBC o £3,764 miliwn. Roedd nifer y trwyddedau y telir amdanynt hefyd wedi gostwng yn 2022-23; cyhoeddodd y BBC 23.50 miliwn o drwyddedau y talwyd amdanynt o'i gymharu â 23.92 miliwn yn y flwyddyn flaenorol, gostyngiad o tua 420,000 (1.8%) (**Ffigur 2**).

**Ffigur 2: Incwm ffi trwydded y BBC a ffioedd trwydded a roddwyd rhwng 2018-19 a 2022-23**

**Gostyngiad yn incwm ffi'r drwydded yn 2022-23**

| | Cyfanswm incwm net (£mn) | Cyfanswm trwyddedau a brynwyd [1] (£mn) | Trwyddedau am ddim (£mn) | Cyfanswm trwyddedau (£mn) | Y rheini sy'n datgan nad oes angen trwydded arnynt (£mn) |
|---|---|---|---|---|---|
| 2018-19 | 3,690 | 21.46 | 4.47 | 25.93 | 2.16 |
| 2019-20 | 3,520 | 21.17 | 4.50 | 25.67 | 2.39 |
| | Cyflwyno polisi newydd ar drwyddedau am ddim i bobl dros 75 oed ym mis Awst 2020[2] | | | | |
| 2020-21 | 3,750 | 23.78 | 1.48 | 25.26 | 2.42 |
| 2021 22 [3] | 3,800 | 23.92 | 0.77 | 24.69 | 2.48 |
| 2022-23 | 3,741 | 23.50 | 0.76 | 24.26 | 2.84 |

Nodiadau:

1. Mae'r ffigurau yn y tabl uchod yn ymwneud â thrwyddedau a werthwyd. Nid yw'r niferoedd hyn yn cynnwys trwyddedau Llety ar gyfer Gofal Preswyl (ARC). Yn 2022-23, mae'r BBC yn amcangyfrif bod TVL wedi cyhoeddi 393,000 o drwyddedau ARC, sy'n cynnwys 179,000 wedi'u prynu ar gyfradd ostyngol o £7.50 a 214,000 o drwyddedau am ddim i bobl dros 75 oed. Mae'r BBC hefyd yn adrodd ar nifer y 'Trwyddedau mewn Grym' ar ddiwedd y flwyddyn yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Grŵp y BBC 2022-23. Mae nifer y 'Trwyddedau mewn Grym' yn cael ei ddefnyddio gan y BBC i amcangyfrif lefel y bobl sy'n osgoi talu ffi'r drwydded, ac mae'r niferoedd hyn yn wahanol

i’r niferoedd a werthir a adroddir uchod ac yn Natganiad Ymddiriedolaeth y BBC 2022-23.

2. Yn dilyn y newid polisi ar drwyddedau i gwsmeriaid dros 75 oed o 2020-21, dim ond cwsmeriaid dros 75 oed sy’n cael Credyd Pensiwn sy’n gymwys i gael trwydded am ddim. Mae’r BBC yn talu costau’r trwyddedau am ddim hyn.

3. Mae maint gwerthiannau 2021-22 wedi cael eu diweddaru ar sail amcangyfrifon diwygiedig.

4. Efallai na fydd y niferoedd yn adio’n gywir oherwydd talgrynnu.

Ffynhonnell: Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC 2018-19 i 2022-23 a Datganiad Ymddiriedolaeth y BBC 2018-19 i 2022-23

1.4 Mae’r BBC wedi asesu mai’r rheswm dros y gostyngiad yn incwm ffi’r drwydded a’r trwyddedau y talwyd amdanynt yw:

- **cynnydd yn nifer yr aelwydydd sy’n datgan nad oes angen trwydded arnynt** gan nad ydynt yn gwylio cynnwys trwyddedadwy;
- **arafu o ran twf aelwydydd yn gyffredinol ac felly gostyngiad** yn nifer yr aelwydydd newydd y mae angen trwydded arnynt; a
- **llai o gwsmeriaid yn prynu trwydded oherwydd cynnydd mewn costau byw** a’r effaith a gaiff hyn ar dalu eu biliau a’u dewisiadau ariannol.

1.5 Y pwysicaf o’r ffactorau hyn yw effaith y rheini sy’n datgan nad oes angen trwydded arnynt. Erbyn diwedd 2022-23, roedd 2.84 miliwn o gwsmeriaid wedi rhoi gwybod i TVL nad oes angen trwydded arnynt mwyach, cynnydd o tua 360,000 ers 2021-22 pan wnaeth 2.48 miliwn o gwsmeriaid y datganiad hwn (**Ffigur 2)**. Roedd y rhan fwyaf o’r cynnydd mewn cwsmeriaid a oedd yn datgan nad oedd angen trwydded yn deillio o aelwydydd domestig. Roedd cwsmeriaid domestig a oedd yn datgan nad oedd angen trwydded arnynt wedi cynyddu tua 420,000 o 1.95 miliwn yn 2021-22 i 2.37 miliwn yn 2022-23. Mae hyn yn fwy na rhagolwg y BBC o £2.28 miliwn ar ddechrau’r flwyddyn. Mae’r cynnydd hwn yn cael ei wrthbwyso gan ostyngiad o tua 60,000 yn nifer yr adeiladau annomestig eraill sy’n datgan nad oes angen trwydded arnynt.

1.6 Mae rhagolygon y BBC eisoes yn rhagdybio tuedd hirdymor o newid mewn arferion gwylio. Yn ystod 2022-23, nododd ymchwil y BBC fod 79% o gynnwys y BBC ar iPlayer yn cael ei wylio ar-alw yn hytrach nag yn fyw, gyda thri chwarter y cyhoedd yn defnyddio iPlayer. Roedd 7.3 biliwn o ffrydiau ar iPlayer, cynnydd o 11 y cant o’i gymharu â 2021-22, gydag oddeutu 30% o’r rhain yn dod o ddyfeisiau ar wahân i set deledu. Pan fydd pobl yn symud oddi wrth wylio teledu traddodiadol a byw, efallai na fyddant yn sylweddoli bod angen trwydded arnynt o hyd. Nod strategaeth digidol yn gyntaf[3] y BBC yw ymateb i’r newidiadau hyn mewn arferion gwylio. Mae twf nifer yr aelwydydd hefyd yn arafu ac felly mae llai o aelwydydd newydd angen

[3]Adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, *A Digital BBC,* Rhagfyr 2022, Paragraff 3

trwydded. Mae'r ffactorau hyn yn lleihau'r farchnad y mae'r BBC yn gallu mynd i'r afael â hi ac incwm ffi'r drwydded.

## Gweithrediadau casglu yn 2022-23

1.7 Amcan cyffredinol y BBC ar gyfer TVL yw "gwneud y mwyaf o refeniw ac enw da drwy greu cenedl o dalwyr parod". Yn 2022-23, canolbwyntiodd TVL ar wella gwasanaeth i gwsmeriaid, cefnogi cwsmeriaid i dalu a dangos gwerth trwydded deledu.

***Costau casglu***

1.8 Yn 2022-23, gwariodd y BBC £136.5 miliwn ar gasglu ffi'r drwydded (**Error! Reference source not found.**). Cynyddodd cost casglu'r BBC fel canran o'r incwm yn 2022-23 i 3.7% o 3.2% yn y flwyddyn flaenorol (**Ffigur 3**). Er bod y costau casglu wedi cynyddu, maent 7.8% yn is na rhagolygon y BBC o £148 miliwn ar ddechrau'r flwyddyn.

1.9 Cynyddodd costau casglu o 2018-19 i 2020-21, yn bennaf oherwydd costau cyflwyno'r polisi newydd ar gyfer pobl dros 75 oed. Roedd y costau hyn yn cynnwys datblygu a gweithredu'r systemau newydd sydd eu hangen, recriwtio staff ychwanegol, a chynnal rhaglen gyfathrebu sylweddol gyda phawb yr effeithiwyd arnynt. Gostyngodd costau casglu yn 2021-22 wedyn wrth i'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r systemau newydd hyn gael ei gwblhau. Yn 2022-23, cynyddodd y costau casglu £14.3 miliwn o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, oherwydd cynnydd mewn costau contractau allanol a phostio.

**Ffigur 3: Costau casglu ffi'r drwydded**

**Roedd costau casglu wedi cynyddu yn 2022-23 ar ôl gostwng yn 2021-22**

| | 2018-19 £m | 2019-20 £m | 2020-21 £m | 2021-22 £m | 2022-23 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau parhaus | 94 | 93 | 88 | 97 | 128 |
| Costau datblygu | 9 | 27 | 48 | 25 | 9 |
| **Cyfanswm costau** | **103** | **120** | **136** | **122** | **137** |
| | | | | | |
| Incwm Ffi'r Drwydded | 3,690 | 3,520 | 3,750 | 3,800 | 3,741 |
| | | | | | |
| Costau fel canran o incwm | 2.8% | 3.4% | 3.6% | 3.2% | 3.7% |

Noder:

1. Mae'r holl ffigurau incwm a chostau mewn termau arian parod wedi cael eu talgrynnu i'r £ miliwn agosaf.

Ffynhonnell: Dadansoddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o ddata'r BBC

***Effaith pandemig y coronafeirws (COVID-19)***

1.10 Yn unol â nifer o sefydliadau eraill, roedd TVL yn wynebu heriau gweithredol na welwyd eu tebyg o'r blaen o ran casglu incwm ffi'r drwydded rhwng 2020-21 a 2021-22 oherwydd pandemig COVID-19. Yn ystod hydref 2021, dechreuodd TVL weithio ar archwilio sut gallai ddysgu o'i brofiadau yn ystod y pandemig a rhoi model gweithredu newydd ar waith yn barhaol ar sail arferion gweithio hybrid. Mae TVL bellach wedi gwreiddio dull gweithio hybrid, gan gynnwys gweithio gartref mewn timau. Mae Capita yn cyrraedd neu'n rhagori ar y targedau a bennwyd gan y BBC, sy'n aros ar lefelau a bennwyd cyn pandemig COVID-19.

***Rhaglen moderneiddio TG***

1.11 Capita yw prif ddarparwr gwasanaethau casglu ffi'r drwydded. Ym mis Gorffennaf 2022, llofnododd y BBC estyniad contract 5 mlynedd gyda Capita tan 30 Mehefin 2027. Mae'r estyniad i'r contract yn ei gwneud yn ofynnol i Capita wneud gwelliannau gweithredol ac uwchraddio TG i wella profiad y cwsmer a chreu arbedion effeithlonrwydd.

1.12 Nod rhaglen uwchraddio TG Capita yw galluogi systemau TG sefydlog, diogel a chefnogol a lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â hen seilwaith. Mae'r BBC yn adrodd bod uwchraddio ar raddfa fach wedi cael ei wneud i rai systemau gweithredol yn ystod 2022-23. Mae'r gwaith o weithredu'r rhaglen ar ei hôl hi oherwydd yr oedi a gafwyd wrth sefydlu'r rhaglen. Mae Prif Swyddog Technoleg, Pwyllgor Gweithrediadau a Phwyllgor Buddsoddi Technoleg y BBC yn gyfrifol am fonitro sut mae Capita yn cyflawni'r rhaglen ac yn disgwyl cytuno ar drywydd diwygiedig ar gyfer y rhaglen ym mis Gorffennaf 2023.

1.13 Dechreuwyd uwchraddio gwefan TVL yn 2022-23. Yn ystod y flwyddyn, mae'r BBC a'i bartneriaid cyflenwi wedi adolygu a symleiddio tudalennau gwe a chynnwys gwe wedi'i ddiweddaru i wella sut mae peiriannau chwilio'r rhyngrwyd yn hidlo tudalennau gwe TVL i helpu cwsmeriaid i ddod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt. Mae'r rhaglen ddiweddaru TG hefyd wedi cyflwyno ffurflenni cais ar-lein newydd ar gyfer ad-daliadau a chanslo, sydd, yn ôl amcangyfrifon y BBC, wedi arwain at tua 21,000 yn llai o alwadau sy'n cael eu trin gan asiantau ffôn bob mis. Yn 2023-24, mae'r BBC yn bwriadu parhau i wella ei wefan, gan gynnwys ail-frandio ac ailgynllunio taith y cwsmer. Bydd hyn yn cael ei gefnogi drwy ddiweddaru'r wefan gyda'r feddalwedd diweddaraf.

1.14 Cafodd Capita ymosodiad seiber ym mis Mawrth 2023. Mae Capita wedi rhoi gwybod i'r BBC nad effeithiwyd ar ddata TVL na'r rhai sy'n talu ffi'r drwydded yn ystod yr ymosodiad hwn. Mae'r BBC wedi adolygu sicrwydd Capita ac mae'n bwriadu parhau i fonitro am ddigwyddiadau diogelwch. Mae wedi gwneud datganiad gwirfoddol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, a adlewyrchir yn y Datganiad Llywodraethu ar dudalen 13.

## Datblygiadau polisi ffi'r drwydded

1.15 O dan Siarter Frenhinol y BBC 2016, mae bodolaeth ffi'r drwydded yn cael ei warantu tan ddiwedd cyfnod presennol y Siarter ym mis Rhagfyr 2027. I'r gwrthwyneb, dim ond tan 31 Mawrth 2022 yr oedd y trefniadau ar gyfer pennu lefel ffi'r drwydded ar waith, oedd yn golygu cynyddu'r ffi bob blwyddyn yn unol â chwyddiant. Ym mis Ionawr 2022, cyhoeddodd y Llywodraeth y byddai ffi'r drwydded deledu yn aros ar £159 yn 2022-23 a 2023-24 ac yna'n codi yn unol â chwyddiant o fis Ebrill 2024 i ddiwedd y Siarter yn 2027-28. 2022-23 oedd y flwyddyn gyntaf i ffi'r drwydded beidio â chynyddu yn unol â chwyddiant ers 2017-18. Mae'r BBC nawr yn amcangyfrif y bydd y rhewi hwn yn arwain at golli £400 miliwn o incwm dros weddill cyfnod y Siarter i 2027-28. Yn ystod 2022-23 a 2023-24, er bod ffi'r drwydded wedi'i rhewi, er mwyn cynnal lefelau blaenorol o incwm ffi'r drwydded, byddai angen i'r BBC gadw nifer y cwsmeriaid fel ag yr oeddent. Er mwyn cynyddu incwm ffi'r drwydded yn 2023-24, byddai angen i'r BBC gynyddu nifer y cwsmeriaid sy'n prynu trwydded.

1.16 Ym mis Ionawr 2022 cyhoeddodd y Llywodraeth y byddai'n dechrau adolygu a fydd ffi'r drwydded yn dal yn fodel cyllido hyfyw ar gyfer y BBC ar ôl i gyfnod presennol y Siarter ddod i ben. Cadarnhaodd hyn eto ym Mhapur Gwyn Ebrill 2022 "Nesaf: Gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer y Sector Darlledu", gan nodi ei bwriad i gyflwyno cynlluniau manylach ar gyfer yr adolygiad dros y misoedd nesaf. Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yr adolygiad ym mis Mawrth 2023, ond nid yw wedi dechrau eto[4].

[4] Statement made by Secretary of State for Culture Media and Sport (29th March 2023) on draft Media Bill

# Rhan Dau: Osgoi Ffi'r Drwydded yn 2022-23

2.1 Nid yw pawb sy'n gorfod prynu trwydded deledu yn gwneud hynny; mae rhai pobl naill ai'n amharod i wneud hynny neu'n methu â gwneud hynny oherwydd fforddiadwyedd. Mae mynd i'r afael ag osgoi talu ffi'r drwydded yn faes ffocws allweddol i'r BBC ac mae lefel yr osgoi yn fesur hollbwysig o'i berfformiad. Gyda demograffeg yn newid a bygythiadau parhaus i refeniw yn sgil newidiadau mewn arferion gwylio, mae mynd i'r afael â hyn yn cyflawni cyfrifoldebau'r BBC i sicrhau ei fod yn cael ei gasglu'n effeithiol ac yn cefnogi cyllid y BBC. Mae'r BBC yn amcangyfrif bod pob gostyngiad pwynt canran yn y gyfradd osgoi y gall ei gyflawni yn cyfateb i tua £43 miliwn o refeniw ychwanegol.

## Lefelau osgoi talu ffi'r drwydded

2.2 Bob blwyddyn, mae'r BBC yn adrodd ar ei amcangyfrif o gyfradd osgoi talu ffi'r drwydded. Mae'r gyfradd osgoi a adroddir yn seiliedig ar y gwahaniaeth rhwng amcangyfrif y BBC o nifer y safleoedd y disgwylir iddynt fod angen trwydded, a gwir nifer y trwyddedau sydd mewn grym. Roedd yr amcangyfrif o gyfradd osgoi ffi'r drwydded ar gyfer 2022-23 wedi cynyddu i 10.31% neu tua £430 miliwn, cynnydd o 0.93 pwynt canran o 9.38% (wedi'i ailddatgan) yn 2021-22 (**Ffigur 4**). Dyma'r tro cyntaf ers 1995 i'r gyfradd osgoi a amcangyfrifir fod yn fwy na 10%.

**Ffigur 4: Lefelau osgoi ffi'r drwydded a gofnodwyd rhwng 2018-19 a 2022-23**

**Roedd amcangyfrifon y BBC o lefel yr osgoi wedi cynyddu yn 2022-23, o'i gymharu â 2021-22**

**Amcangyfrif o'r cyfraddau osgoi talu ffi'r drwydded**

| | |
|---|---|
| 2018-19 | 6.69% |
| 2019-20 | 6.95% |
| 2020-21 [1] | 7.58% |
| 2021-22 [2] | 9.38% |
| 2022-23 | 10.31% |

Nodiadau:

**1.** Ni allai'r BBC roi gwybod am amcangyfrif osgoi yn 2020-21 gan nad oedd data ar wylio aelwydydd ar gael oherwydd COVID-19 ar yr adeg y paratowyd Datganiad Ymddiriedolaeth Ffi Trwydded Deledu'r BBC ar gyfer 2021-22. Cafodd amcangyfrif 2020-21 ei baratoi yn ystod 2021-22 ar sail modelu gan ddefnyddio data gwylio oedd ar gael rhwng 2020-21 a 2021-22.

**2.** Ym mis Gorffennaf 2022, dywedodd y BBC fod y gyfradd osgoi ar gyfer 2021-22 yn 8.93%. Mae bellach wedi ailddatgan hyn i 9.38% gan adlewyrchu'r ffaith bod y BBC wedi diweddaru niferoedd 2021-22 a 2022-23 o 'Drwyddedau mewn Grym' ar gyfer amcangyfrifon diwygiedig o drwyddedau Llety ar gyfer Gofal Preswyl (ARC), a oedd wedi cael eu hystumio gan effeithiau covid. Mae nifer y Trwyddedau mewn Grym yn elfen allweddol wrth amcangyfrif y nifer sy'n osgoi talu.

Ffynhonnell: Datganiad Ymddiriedolaeth Ffi Trwydded Deledu'r BBC 2018-19, 2019-20, 2021-22 a 2022-23

## Asesu osgoi

2.3 Amcangyfrifir lefel osgoi Ffi'r Drwydded fel y gwahaniaeth rhwng nifer y trwyddedau sydd mewn grym a nifer y safleoedd trwyddedadwy. Mae'r BBC yn cyfrifo'r gyfradd osgoi gan ddefnyddio model osgoi ac mae'r amcangyfrif canlyniadol yn agored i ansicrwydd. Mae'n nodi nifer y trwyddedau sydd mewn grym o gronfa ddata TV Licensing. I'r gwrthwyneb, mae cyfrifo'r amcangyfrif o nifer y safleoedd y mae angen trwydded arnynt yn fwy cymhleth. Mae'r BBC wedi nodi naw gwahanol fath o aelwydydd ac eiddo annomestig arall, gan gynnwys myfyrwyr mewn neuaddau, lletywyr a chartrefi gofal, pob un â'i ffynhonnell ddata trydydd parti ei hun ar gyfer y niferoedd dan sylw, sy'n amrywio o ran pa mor ddiweddar ydynt. Ar gyfer y ffynonellau llai diweddar, mae'n rhaid i'r BBC amcangyfrif sut mae'r data perthnasol wedi newid yn y cyfamser. Mae'r BBC yn defnyddio data o arolwg chwarterol y Bwrdd Ymchwil Cynulleidfaoedd Darlledwyr (BARB) o arferion gwylio aelwydydd i amcangyfrif faint o bob math o safleoedd sydd angen trwydded (a

elwir yn gyfradd dreiddio teledu). Mae'r BBC wedi dylunio ei fodel osgoi i'w alluogi i asesu effaith amrywiadau mewn data neu newid tybiaethau ynghylch yr amcangyfrif cyffredinol o'r lefel osgoi.

2.4 Mae'r gyfradd osgoi wedi bod yn cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf. Canfu ymchwil a gynhaliwyd gan y BBC yn 2019-20 mai'r ffactor mwyaf sy'n sbarduno'r duedd hon oedd newidiadau mewn arferion gwylio wrth i bobl wylio llai o raglenni teledu traddodiadol a llai o deledu byw (cynnwys trwyddedadwy). Roedd ffactorau eraill yn cynnwys fforddiadwyedd, pris trwydded deledu a gweithgareddau gorfodi TVL. Pan ddefnyddiodd y BBC yr ymchwil hwn i amcangyfrif y gyfradd osgoi yn 2019-20, canfu mai'r newid mewn arferion gwylio oedd i gyfrif am hanner cyfanswm y cynnydd o 2018-19.

2.5 Roedd dadansoddiad gan y BBC yn ystod hydref 2022 yn dangos mai'r prif sbardun ar gyfer y cynnydd yn y gyfradd osgoi yn 2020-21 oedd effaith COVID-19, gan fod y pandemig wedi cyfyngu ar allu TVL i gynnal ymweliadau â phobl i weld a oedd ganddynt drwydded deledu os oeddent yn gwylio cynnwys trwyddedadwy. Roedd y dadansoddiad hwn hefyd yn cadarnhau damcaniaeth y BBC mai'r prif sbardun ar gyfer y cynnydd yn yr amcangyfrif o'r niferoedd sy'n osgoi talu ar gyfer 2021-22 oedd newid mewn polisi ar gyfer pobl dros 75 oed. Am y tro cyntaf yn 2020-21, roedd cyfrifiad y gyfradd osgoi dybiedig yn cynnwys carfan newydd o gwsmeriaid a oedd yn talu, sef y rheini dros 75 oed nad oeddent yn cael Credyd Pensiwn. Yn y gorffennol, byddai'r cwsmeriaid hyn wedi cael trwydded am ddim ac ni fyddai unrhyw amcangyfrif o osgoi talu yn y garfan hon. Mae'r BBC o'r farn bod y boblogaeth hon yn dangos yr un lefel o osgoi â'r boblogaeth o dan 75 oed a bod hyn yn gyfrifol am y cynnydd yn y nifer sy'n osgoi talu yn 2021-22.

2.6 Mae strategaeth casglu ffi'r drwydded y BBC yn nodi bod newid mewn arferion gwylio, arafu o ran twf aelwydydd a heriau costau byw yn cynyddu'r risg o osgoi talu, ac yn lleihau marchnad y BBC y mae modd mynd i'r afael â hi (paragraffau 1.4 i 1.6). Bydd dealltwriaeth lawn o'r ffactorau sy'n sbarduno osgoi talu yn hanfodol er mwyn canolbwyntio gweithgareddau i gynyddu faint o ffi'r drwydded sy'n cael ei chasglu a chyrraedd y targed a bennwyd ym mis Mawrth 2022 i gyfyngu ar y cynnydd yn nifer y bobl sy'n osgoi talu i 0.14% bob blwyddyn.

## Mynd i'r afael ag osgoi

2.7 Mae'r Siarter Frenhinol yn mynnu bod Bwrdd y BBC yn sicrhau bod "trefniadau ar gyfer casglu ffi'r drwydded yn effeithlon, yn briodol ac yn gymesur". Bydd taro'r cydbwysedd iawn rhwng gorfodaeth ac anogaeth yn sicrhau bod y BBC yn manteisio i'r eithaf ar ei incwm ac yn lleihau'r nifer sy'n osgoi talu a bod pawb sy'n mwynhau'r gwasanaethau a ddarperir gan y BBC yn cyfrannu at ei gostau.

***Gweithgareddau gorfodi***

2.8 Os nad yw unigolyn yn talu am drwydded deledu sy'n ddyledus, mae'n cael gohebiaeth wedi'i thargedu sy'n ei annog i wneud hynny, ac o bosibl ymweliad gan swyddog gorfodi. Os bydd ffi'r drwydded yn dal heb ei thalu, gellir erlyn yr unigolyn a'i ddirwyo hyd at £1,000. Canfu dadansoddiad y BBC o osgoi talu yn ystod 2021-22 y gall cynnydd mewn gweithgareddau gorfodi TVL, fel galwadau ffôn i'r cartref, ymweliadau ac erlyniadau, arwain at ostyngiad mewn osgoi talu.

2.9 Mae nifer yr erlyniadau wedi gostwng o tua 114,000 yn 2019 oherwydd atal ymweliadau gorfodi yn ystod cyfyngiadau COVID-19. Yn 2022 cafodd 40,220 o bobl eu herlyn am beidio â thalu ffi'r drwydded. Mae prinder Swyddogion Maes wedi effeithio ar weithgareddau gorfodi – gan gynnwys erlyniadau – yn ystod 2022-23.

***Ei gwneud yn haws prynu trwydded***

2.10 Gellir prynu trwyddedau mewn sawl ffordd. Yn ogystal â phrynu trwydded yn flynyddol, yn chwarterol neu'n fisol, ceir nifer o gynlluniau i wneud taliadau'n fwy fforddiadwy. Mae'r rhain yn cynnwys y Cynllun Taliadau Syml (SPP) a lansiwyd yn 2020 i ddarparu cynllun talu hyblyg ar gyfer aelwydydd sydd mewn trafferthion ariannol neu sy'n agored i gael eu herlyn. Ym mis Mehefin 2023, dim ond os nad oes gan yr aelwyd drwydded y mae'r SPP ar gael i bobl sy'n ymuno o'r newydd, a'i bod: wedi cael ymweliad gorfodi gan TVL; neu fod trwydded wedi'i chanslo am beidio â thalu; neu ei bod wedi gofyn am gyngor gan asiantaeth cynghori dyledion nid-er-elw.

2.11 Yn 2022-23, creodd TVL 'Dîm Atebion Talu' pwrpasol i helpu cwsmeriaid cymwys sy'n cael trafferth gyda'u taliadau i aros dan drwydded, gan gynnig atgyfeirio at wasanaethau cynghori ar ddyledion neu godi ymwybyddiaeth o gymhwysedd Credyd Pensiwn ar gyfer pobl dros 75 oed. O ystyried parhad tebygol y pwysau costau byw ar aelwydydd yn 2023-24, mae'r BBC yn disgwyl i gwsmeriaid barhau i gael trafferth gyda thaliadau biliau ac wynebu dewisiadau ariannol anodd.

2.12 Fe wnaeth y BBC ymestyn ei gontract gyda Target i ddarparu'r SPP o 1 Ebrill 2023 ymlaen am flwyddyn, heb unrhyw newidiadau arfaethedig i'r cynllun SPP yn ystod 2023-24. Mae'r BBC yn tendro am gyflenwr newydd ar gyfer gwasanaethau SPP o 1 Ebrill 2024 ymlaen, yn amodol ar gadarnhau cwmpas y cynllun.

***Adolygiad o Wahaniaethau ar sail Rhywedd***

2.13 Yn ystod 2022-23 cynhaliodd y BBC adolygiad o'r gwahaniaethau ar sail rhywedd mewn erlyniadau am beidio â thalu ffi'r drwydded, er mwyn deall yn well pam fod 75% o'r rheini a gafwyd yn euog o beidio â thalu ffi'r drwydded deledu yn fenywod.[5] Canfu'r adolygiad a gyhoeddwyd ym mis Mai 2023 nad oes tystiolaeth o wahaniaethu uniongyrchol gan TVL. Ffactorau cymdeithasol, sydd y tu hwnt i reolaeth TVL, fel cyfansoddiad aelwydydd a phwy sydd gartref yn ystod ymweliadau arolygu maes, oedd y ffactorau arwyddocaol y tu ôl i'r gwahaniaethau ar sail rhywedd.

2.14 Yn dilyn yr adolygiad, cyflwynodd y BBC gynllun gweithredu 10 pwynt gyda'r nod o ddarparu mwy o gefnogaeth i'r rheini sy'n wynebu caledi ariannol a chyflwyno prosesau gwell pan fydd TVL yn ymgysylltu ag aelwydydd heb drwydded. Bwriad chwech o'r 10 cam gweithredu yng nghynllun y BBC yw helpu pobl i ddal eu trwydded a lleihau'r risg o gael eu herlyn, gan gynnwys cynnig i sicrhau bod SPP ar gael i fwy o gwsmeriaid heb drwydded sy'n ei chael hi'n anodd talu am drwydded. Bydd newid argaeledd SPP yn gofyn am newidiadau rheoleiddiol. Mae'r BBC yn bwriadu treialu agweddau eraill ar y cynllun gweithredu yn 2023-24 i asesu'r effaith ar ganlyniadau erlyniadau.

***Annog cwsmeriaid i brynu trwydded***

2.15 Gan fod nifer y cwsmeriaid sy'n datgan 'dim angen trwydded' yn cynyddu (paragraff 1.5), mae'r BBC wedi edrych ar ffyrdd o gynyddu ac esbonio gwerth trwydded, o ran y gwasanaethau, gan y BBC a'r tu allan i'r BBC, y gellir cael gafael arnynt drwy brynu trwydded. Mae strategaeth digidol yn gyntaf y BBC yn adlewyrchu'r angen i fod yn gyfredol â newidiadau yn arferion cynulleidfaoedd a symudiad cynyddol at gynnwys ar-lein. Er enghraifft, yn ystod 2022-23, cytunodd OFCOM ar ehangu cynnwys y BBC ar iPlayer, ac mae'r BBC yn edrych ar sut i bersonoli iPlayer a gwasanaethau ar-lein eraill yn well er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr a fflagio cynnwys.

2.16 Yn ystod 2022-23, i egluro gwerth trwydded, mae TVL drwy RAPP Ltd wedi darparu cyfathrebiadau a marchnata sydd wedi'u teilwra i wahanol segmentau o'r gynulleidfa. Roedd canlyniadau cychwynnol y dull hwn yn dangos bod parodrwydd cwsmeriaid i dalu a chanfyddiadau o werth am arian wedi gwella'n sylweddol ymysg cynulleidfaoedd allweddol. Mae'r BBC yn bwriadu, gyda'i bartneriaid cyflenwi, parhau i brofi a gwerthuso canlyniadau'r strategaeth hon yn ystod 2023-24 i benderfynu a oes effeithiau tymor hwy ar incwm ffioedd.

2.17 Mae'r BBC hefyd wedi ceisio gwella ei esboniadau i gwsmeriaid ynghylch pryd mae angen trwydded deledu arnynt. Yn ystod 2022-23, roedd gwefan TVL wedi'i diweddaru (paragraff 1.13) a thîm penodol yng nghanolfan gwasanaeth TVL yn egluro'n fwy manwl beth yw cynnwys trwyddedadwy i helpu cwsmeriaid i ddeall pryd mae angen trwydded. Mae'r newidiadau i'r esboniadau hyn yn cynnwys diffiniad gwell o pryd mae angen trwydded, darparu enghreifftiau o gynnwys trwyddedadwy, fideos wedi'u hanimeiddio i helpu cwsmeriaid i ddeall pan fydd datganiad 'dim angen trwydded' yn briodol a manylion goblygiadau cyfreithiol gwneud y datganiad hwn.

2.18 Mae'r BBC yn dadansoddi effaith y newidiadau hyn ac yn 2023-24 byddwn yn parhau i ystyried y ffordd orau o ymgysylltu â chwsmeriaid sy'n datgan nad oes angen trwydded. Bydd gwerthuso effaith y newidiadau hyn a gweithgareddau eraill yn nodi'r opsiynau mwyaf effeithiol i annog pobl i brynu trwydded ac atal pobl rhag osgoi talu. Bydd angen i'r BBC sicrhau ei fod yn parhau i archwilio'r ffactorau sy'n

[5] Adolygiad o Wahaniaethau ar sail Rhywedd - [gender-disparity-review.pdf (bbc.co.uk)](gender-disparity-review.pdf (bbc.co.uk))

sbarduno osgoi er mwyn eu galluogi i fesur effaith y newidiadau uchod yn effeithiol a lleihau osgoi er mwyn cynyddu refeniw.

**Gareth Davies** **30 Mehefin 2023**
**Rheolwr ac Archwiliwr Cyffredinol**
Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

# Cyfarwyddyd Cyfrifon gan Drysorlys EF

**CYFARWYDDYD CYFRIFON GAN DRYSORLYS EF YN UNOL AG ADRAN 2(3) DEDDF ADRAN Y TROSORLYS A'R ADRAN ARCHWILIO 1921**

1. Mae'r cyfarwyddyd hwn yn berthnasol i'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig ("y BBC") ar gyfer derbyniadau Ffi'r Drwydded Deledu.

2. Bydd y BBC yn paratoi Datganiad yr Ymddiriedolaeth ("y Datganiad") ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011 a'r blynyddoedd ariannol dilynol yn unol ag egwyddorion cyfrifyddu a gofynion datgelu'r argraffiad o *Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth* a gyhoeddir gan Drysorlys EF (FReM) sydd mewn grym ar gyfer y flwyddyn ariannol honno.

3. Bydd y Datganiad yn cael ei baratoi er mwyn rhoi darlun cywir a theg o'r sefyllfa sy'n ymwneud â chasglu a setlo Ffi'r Drwydded Deledu ar 31 Mawrth 2011 a diwedd y flwyddyn ariannol ddilynol a'r refeniw a'r gwariant a'r llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

4. Rhaid paratoi'r datganiad hefyd er mwyn datgelu unrhyw wariant neu incwm sylweddol nas defnyddiwyd at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd neu drafodion perthnasol nad ydynt wedi cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

5. Bydd y BBC yn cytuno ar fformat y nodiadau ategol gyda Thrysorlys EF. Bydd y nodiadau'n cynnwys: y polisïau cyfrifyddu (gan gynnwys y polisi ar gyfer cydnabod refeniw ac unrhyw dechnegau amcangyfrif a rhagamcanu); dadansoddiadau o incwm, asedau gwariant a rhwymedigaethau a gydnabyddir yn y prif ddatganiadau ym mhob achos lle byddai dealltwriaeth defnyddwyr yn cael ei gwella'n sylweddol gan fanylion ychwanegol; datgelu rhwymedigaethau digwyddiadol; crynodebau colledion, dileu a rhyddhau ffioedd; a digwyddiadau ôl-fantolen.

6. Rhoddir ystyriaeth hefyd i'r holl ofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol a roddir yn Rheoli Arian Cyhoeddus a chanllawiau eraill a gyhoeddir gan Drysorlys EF. I'r graddau hyn, bydd Datganiad yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys: Rhagair gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol; Sylwadau Rheolwyr; Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr Cyffredinol; a Datganiad ar Reolaeth Fewnol.

7. Mae osgoi y tu allan i gwmpas Datganiad yr Ymddiriedolaeth ac ni chaiff ei gynnwys yn y prif ddatganiadau neu nodiadau. Dylid datgelu'r ffaith hon mewn nodyn polisi cyfrifyddu gan gyfeirio at y Sylwadau Rheolwyr ar gyfer datgelu pellach. Bydd y datgeliadau yn y Sylwadau Rheolwyr yn cynnwys trafod lefel yr osgoi yn ystod y flwyddyn.

8. Bydd y Datganiad yn cael ei drosglwyddo i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol at ddibenion ei archwiliad a'i adroddiad erbyn dyddiad y cytunwyd arno gyda'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol a Thrysorlys EF i sicrhau y cydymffurfir â'r dyddiad cau gweinyddol ar gyfer cyflwyno'r cyfrifon archwiliedig gerbron y Senedd cyn Gwyliau'r Haf.

9. Bydd Datganiad yr Ymddiriedolaeth, ynghyd â'r cyfarwyddyd hwn, a'r Adroddiad a gynhyrchir gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, o dan adran 2(2) Deddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, yn cael eu cyflwyno gerbron y Senedd ar yr un pryd â chyfrifon y BBC.

**CHRIS WOBSCHALL**
Pennaeth Polisi Sicrwydd ac Adroddiadau
Ariannol Trysorlys EF
**10 Mai 2011**

E0291521375
978-1-5286-4124-1